# Gwleidyddion yn cyflwyno newyddion

## Ymgynghoriad ar ddiwygiad arfaethedig i Reol 5.3 o God Darlledu Ofcom

**Ymgynghoriad**

Cyhoeddwyd 12 Mai 2025
Dyddiad cau ar gyfer derbyn ymatebion: 23 Mehefin 2025

I gael rhagor o wybodaeth am y cyhoeddiad hwn, ewch i ofcom.org.uk

# Cynnwys

## Adran

Heb ganfod tabl cynnwys.

## Atodiad

Heb ganfod tabl cynnwys.

# 1. Trosolwg

**Beth rydym yn ei gynnig – yn gryno**

Yn dilyn dyfarniad diweddar gan yr Uchel Lys[1], rydym yn cynnig diwygio Rheol 5.3 o God Darlledu Ofcom. Diben y diwygiad arfaethedig yw atal gwleidyddion rhag cyflwyno newyddion mewn unrhyw fath o raglen deledu neu radio. Roedd Ofcom o'r farn bod Rheol 5.3 yn berthnasol i unrhyw raglen a oedd yn cynnwys newyddion, ond mae'r Uchel Lys wedi penderfynu bod y rheol gyfredol yn fwy cyfyngedig, sef dim ond i wleidyddion sy'n cyflwyno newyddion mewn "rhaglenni newyddion".

Rydym o'r farn bod y diwygiad arfaethedig hwn yn adlewyrchu realiti'r amgylchedd cyfryngau sy'n esblygu, lle mae'r gwahaniaeth rhwng cynnwys newyddion a materion cyfoes wedi dod yn fwy aneglur a lle mae hi wedi dod yn fwy cyffredin defnyddio gwleidyddion i gyflwyno rhaglenni.

O dan y diwygiad arfaethedig, ni cheir defnyddio gwleidyddion fel darllenwyr newyddion, cyfwelwyr newyddion na gohebwyr newyddion mewn unrhyw fath o raglen, ac eithrio lle mae cyfiawnhad golygyddol eithriadol. Mewn achosion o'r fath, mae'n rhaid i ddarlledwyr egluro teyrngarwch gwleidyddol y person hwnnw i'r gynulleidfa.

Rydym yn gofyn i randdeiliaid a ydynt yn cytuno â'r diwygiadau arfaethedig i Reol 5.3 o God Darlledu Ofcom a'r Canllawiau cysylltiedig.

Mae'r rhestr lawn o gwestiynau'r ymgynghoriad yn Atodiad A8.

Y dyddiad cau ar gyfer ymateb yw 23 Mehefin 2025.

Crynodeb byr ar lefel uchel yn unig yw'r adran drosolwg yn y ddogfen hon. Mae'r cynigion rydym yn ymgynghori yn eu cylch a'n rhesymeg wedi'u nodi yn y ddogfen lawn.

[1] *R (ar gais GB News Limited) v Ofcom [2025] EWHC 460 (Gweinyddol)*

# 2. Cefndir a rhesymeg y diwygiad arfaethedig i Reol 5.3

2.1 Mae'r adran hon yn nodi:

- pwysigrwydd cadw didueddrwydd dyladwy mewn newyddion;
- cyd-destun ehangach yr amgylchedd cyfryngau sy'n newid;
- agweddau cynulleidfaoedd at wleidyddion yn cyflwyno rhaglenni ar deledu a radio;
- Gwaith gorfodi diweddar Ofcom a dyfarniad yr Uchel Lys ynghylch Rheol 5.3; a
- rhesymeg y diwygiad arfaethedig i Reol 5.3.

## Cefndir y diwygiad arfaethedig i Reol 5.3 o'r Cod

2.2 Yn dilyn dyfarniad yr Uchel Lys[2], mae Ofcom o'r farn y dylid diwygio Rheol 5.3 o God Darlledu Ofcom ("y Cod") i'w gwneud yn glir na cheir defnyddio unrhyw wleidydd fel darllenydd newyddion, cyfwelydd newyddion na gohebydd newyddion mewn **unrhyw fath** o raglen ar wasanaeth teledu neu radio (h.y. nid dim ond mewn "rhaglenni newyddion" ar wasanaethau o'r fath), oni bai fod cyfiawnhad golygyddol eithriadol. Mae ein rhesymau dros gynnig y newid hwn wedi'u nodi isod.

2.3 Mae Atodiad A1 yn rhoi rhagor o fanylion am y fframwaith statudol perthnasol, rheolau presennol y Cod a hanes a rhesymeg y gofynion perthnasol.

## Pwysigrwydd cadw didueddrwydd dyladwy mewn newyddion

2.4 Fel sy'n cael ei egluro yn Atodiad A1, mae'r fframwaith cyfreithiol a rheoleiddiol yn adlewyrchu pwysigrwydd newyddion mewn cymdeithas ddemocrataidd. Yn unol â hynny, mae'r gofynion didueddrwydd dyladwy ar eu huchaf ar gyfer newyddion. Mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn Rheolau 5.1[3] a 5.3[4] o'r Cod.

2.5 Ynghyd â'r gofyniad am gywirdeb dyladwy, mae'r gofynion didueddrwydd dyladwy yn ceisio sicrhau bod cynulleidfaoedd yn gallu cael gafael ar newyddion diduedd a chywir ar y teledu ac ar y radio. Mae hyn yn hyrwyddo trafodaeth ddemocrataidd drwy roi gwybodaeth i gynulleidfaoedd am ddigwyddiadau cyfredol ac i ddod ar draws amrywiaeth o safbwyntiau ar faterion cyfredol.

2.6 Mae didueddrwydd dyladwy mewn newyddion sy'n cael ei ddarlledu yn y DU yn arbennig o bwysig oherwydd mae ffynonellau newyddion eraill, fel papurau newydd cenedlaethol a'r

---

[2] *R (ar gais GB News Limited) v Ofcom [2025] EWHC 460 (Gweinyddol)*

[3] Mae Rheol 5.1 yn datgan bod "Rhaid adrodd newyddion, ar ba bynnag ffurf, gyda chywirdeb dyladwy a'i gyflwyno gyda didueddrwydd dyladwy".

[4] Mae Rheol 5.3 yn datgan "Ni cheir defnyddio unrhyw wleidydd fel darllenydd newyddion, cyfwelydd na gohebydd mewn unrhyw raglenni newyddion oni bai fod cyfiawnhad golygyddol dros hynny mewn achosion eithriadol. Mewn achos o'r fath, rhaid egluro teyrngarwch gwleidyddol y person hwnnw i'r gynulleidfa".

cyfryngau cymdeithasol, yn aml yn bleidiol. Mae sector darlledu'r DU drwyddo draw yn elwa o reoleiddio didueddrwydd dyladwy o ran meithrin ymddiriedaeth, ac mae cynulleidfaoedd a chymdeithas yn gyffredinol yn elwa o'r ffaith ei bod yn rhaid i newyddion sy'n cael ei ddarlledu yn y DU gyrraedd safonau Ofcom o ran cywirdeb dyladwy a didueddrwydd dyladwy.[5]

2.7 Wrth ystyried tarddiad a phwysigrwydd y darpariaethau didueddrwydd dyladwy yn y Ddeddf yn 2020, canfu'r Uchel Lys fod "Ofcom wedi canfod yn gyson bod didueddrwydd a chywirdeb mewn newyddion sy'n cael ei ddarlledu yn bwysig iddynt (paragraff 1.13 [o'r Canllawiau i Adran Pump o'r Cod]).[6] Ar ben hynny, roedd ymatebion y diwydiant i Bapur Trafod 2007 a gyhoeddwyd gan Ofcom yn gryf o blaid cadw'r gofynion didueddrwydd dyladwy, am y rheswm, ymysg eraill, eu bod yn sicrhau hygrededd y cyfryngau darlledu yn y Deyrnas Unedig".[7]

2.8 Yn ein barn ni mae'n hanfodol bod cynulleidfaoedd yn gallu ymddiried a disgwyl bod y cynnwys newyddion maent yn ei wylio ar wasanaethau darlledu sy'n cael eu rheoleiddio yn cael ei gyflwyno gyda didueddrwydd dyladwy.

## Newid yn yr amgylchedd cyfryngau

2.9 Mae amgylchedd cyfryngau'r DU drwyddo draw wedi esblygu cryn dipyn ers pasio'r Ddeddf Cyfathrebiadau ("y Ddeddf") yn 2003, sef y ddeddfwriaeth sy'n rheoli gwaith safonau darlledu Ofcom. Ymysg datblygiadau eraill, mae twf y cyfryngau digidol a'r rhyngrwyd wedi cael effaith sylweddol ar y dirwedd yn fwy cyffredinol, ac ar y sector darlledu yn benodol.

2.10 Mewn llawer o achosion, mae'r mecanweithiau darparu ar gyfer gwasanaethau teledu a radio wedi newid, gyda llwyfannau ar-lein yn darparu ffyrdd newydd o gael gafael ar gynnwys darlledu (e.e. IPTV).[8] Mae'r ffordd mae cynulleidfaoedd yn cael gafael ar raglenni hefyd wedi newid yn llwyr. Mae'n fwy cyffredin bellach i gynulleidfaoedd wylio teledu'n ddiweddarach, defnyddio gwasanaethau dal-i-fyny a gwasanaethau fideos ar-alw.[9] Mae'r nifer sy'n defnyddio dyfeisiau sy'n gallu defnyddio'r rhyngrwyd ac yn enwedig cyfryngau cymdeithasol wedi cynyddu'r cyfleoedd i gynulleidfaoedd gymryd rhan mewn rhaglenni ac ymgysylltu â nhw. Yn olaf, mae esblygiad yr amgylchedd cyfryngau ehangach wedi newid y cyd-destun mae gwasanaethau teledu a radio yn gweithredu ynddo.

2.11 Un o ganlyniadau'r datblygiadau technolegol hyn yw bod y defnyddio'r cyfryngau wedi dod yn fwy amrywiol a darniog.[10] Mae mwy a mwy o bwysau ar ddarlledwyr newyddion i ddenu

---

[5] Mae ymchwil Ofcom yn dangos bod cynulleidfaoedd yn ymddiried yng nghywirdeb a didueddrwydd newyddion sy'n cael ei ddarlledu yn fwy na llwyfannau newyddion ar-lein a chyfryngau cymdeithasol. Gweler: *Cael gafael ar newyddion yn y DU: 2024*, Ofcom, Medi 2024, tudalennau 10-11.

[6] Mae'r cyfeiriad hwn yn ymwneud â fersiwn flaenorol o'r Canllawiau i Adran Pump o'r Cod, sydd ar gael yma.: https://www.ofcom.org.uk/siteassets/resources/documents/tv-radio-and-on-demand/broadcast-codes/code---march/april-2017/broadcast-code-guidance-section-5-march-2017.pdf?v=335875.

[7] *R (ar gais Sefydliad Nid-er-elw Ymreolaethol TV-Novosti) v Ofcom* [2020] EWHC 689 (Gweinyddol), paragraffau 22 a 24.

[8] Gweler: *Dyfodol Dosbarthu Teledu: Adroddiad cynnar ar y farchnad i'r Llywodraeth*, Ofcom, Mai 2024.

[9] Gweler: *Adroddiad ar y Farchnad Gyfathrebiadau 2024*, Ofcom, Gorffennaf 2024; a *Cyfryngau'r Genedl: DU 2024*, Ofcom, Gorffennaf 2024.

[10] Adeg cyhoeddi ein hadroddiad *Cyfryngau'r Genedl: DU 2023*, dywedodd Ofcom: "Mae deiet cyfryngau gwylwyr a gwrandawyr yn y DU yn ymddangos yn fwy amrywiol a thameidiog nag erioed". *Cyfryngau'r Genedl: DU 2024* yn cadarnhau'r patrwm hwn: "Roedd cyrhaeddiad wythnosol darlledu ar y teledu wedi disgyn o 79%

cynulleidfaoedd mewn marchnad orlawn, gyda rhagor o bobl yn cael gafael ar newyddion ar-lein. Er enghraifft, canfu Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion 2024 (am y tro cyntaf) nad teledu yw'r brif ffynhonnell newyddion i oedolion yn y DU mwyach, gan fod safleoedd ac apiau ar-lein bellach yr un mor boblogaidd â newyddion teledu.[11]

2.12 Mewn ymateb, mae fformatau a dulliau newydd yn cael eu datblygu ar gyfer teledu ac mae darparwyr newyddion wedi arallgyfeirio. Yn benodol, yn y DU rydym wedi gweld dyfodiad gwasanaethau newydd fel GB News a Talk (Talk TV gynt) sy'n ceisio darparu rhaglenni newyddion a materion cyfoes unigryw i gynulleidfaoedd, sydd yn eu barn nhw y'n cynnwys lleisiau nad ydynt wedi cael eu clywed o'r blaen a "safbwyntiau di-flewyn ar dafod"[12]

2.13 Yn gyffredinol, mae'r gwasanaethau newydd hyn yn cynnwys cymysgedd o raglenni newyddion a materion cyfoes. Maent yn cynnwys rhaglenni sy'n cael eu harwain gan gyflwynwyr 'personoliaeth' ac yn bennaf maent yn rhannu barn ac yn cynnal dadleuon a thrafodaethau am faterion cyfoes, yn ogystal â chynnal cyfweliadau gydag arbenigwyr, gwleidyddion, ymgyrchwyr, newyddiadurwyr a sylwebwyr. Rhwng y rhaglenni hyn ceir bwletinau newyddion a diweddariadau am straeon sy'n datblygu, yn ogystal â rhywfaint o ryngweithio â'r gynulleidfa.

## Newyddion a materion cyfoes yn yr amgylchedd cyfryngau sy'n esblygu

2.14 Fel y nodir uchod, mae'r gwahaniaeth rhwng cynnwys newyddion a chynnwys materion cyfoes wedi dod yn fwy aneglur yn yr amgylchedd cyfryngau hwn sy'n esblygu.

2.15 Mae newyddion, gan gynnwys ar ffurfiau confensiynol bwletin newyddion neu fflach newyddion, yn fformat sydd wedi hen ennill ei blwyf ar deledu a radio. Byddai'r rhan fwyaf o wylwyr neu wrandawyr yn ei adnabod ar unwaith fel newyddion, oherwydd ei gynnwys ffeithiol a chyfoes, yn ogystal â thrwy gyfeirio at ystod o farcwyr gweledol a/neu sain. Mae'r rhain yn gallu cynnwys: darllenydd newyddion yn cyflwyno'n uniongyrchol i'r gynulleidfa; trefn neu restr o straeon, yn aml ar ffurf fer; defnyddio newyddiadurwyr neu ohebwyr i gyflwyno pecynnau byw neu wedi'u recordio; a/neu gymysgedd o eitemau fideo ac adroddiadau gan ohebwyr.[13]

2.16 I'r gwrthwyneb, mae cynnwys materion cyfoes yn wahanol fel rheol oherwydd nodweddion fel: rhaglen ffurf hirach; trafodaethau, dadansoddiadau neu gyfweliadau helaeth gyda gwesteion, sy'n aml yn fyw; ac adroddiadau fideo ffurf hir.[14] Yn yr un modd â newyddion,

---

yn 2022 i 75% yn 2023, sef yr ail ostyngiad mwyaf erioed am yr ail flwyddyn yn olynol. Am y tro cyntaf, roedd llai na hanner (48%) y bobl ifanc rhwng 16 a 24 oed wedi gwylio teledu wedi'i ddarlledu mewn wythnos arferol...Roedd y gostyngiad tymor hir mewn gwylio teledu wedi'i ddarlledu hefyd wedi parhau". Gweler: *Cyfryngau'r Genedl 2023: Datgelu patrymau gwylio a gwrando diweddaraf yn y DU*, Ofcom, 3 Awst 2023; *Cyfryngau'r Genedl: DU 2023*, Ofcom, Awst 2023; *Cyfryngau'r Genedl: DU 2024*, Ofcom, Gorffennaf 2024, tudalen 3.

[11] "Mae'r ffyrdd mae pobl yn cael mynediad at yr amrywiaeth eang o lwyfannau newyddion yn newid. Yn 2024, mae saith o bob deg (71%) yn dweud eu bod yn cael gafael ar newyddion ar-lein mewn rhyw ffordd, yn gydradd â'r newyddion sy'n cael ei wylio drwy'r teledu ac ar-alw (70%). Mae cyfryngau cymdeithasol yn elfen bwysig o gael gafael ar newyddion ar-lein, gyda dros hanner oedolion y DU (52%) yn eu defnyddio fel ffynhonnell newyddion...Er bod y niferoedd wedi cynyddu ar gyfer cyfryngau cymdeithasol ac ar-lein, mae llwyfannau traddodiadol yn perfformio'n well ar nifer o werthoedd; yn enwedig, ymddiriedaeth, cywirdeb a didueddrwydd". Gweler: *Cael gafael ar newyddion yn y DU: 2024*, Ofcom, Medi 2024, tudalen 3.

[12] Gweler, er enghraifft: GB News Editorial Charter: A call to bold, fearless Journalism; a Talk TV Launches 7pm Monday 25 April.

[13] A ydy gwleidyddion yn cael cyflwyno rhaglenni teledu a radio? Sut mae ein rheolau'n berthnasol, Ofcom, 21 Mawrth 2023.

[14] Ibid.

mae cynnwys materion cyfoes yn delio â phynciau cyfoes, ond mae'n aml yn cyflwyno safbwynt penodol ar y materion hynny neu'n eu dadansoddi'n fwy manwl nag arfer mewn bwletin newyddion, er enghraifft.

2.17 Dros amser, mae rhaglenni newyddion wedi dod yn gymysg â mathau eraill o raglenni. Erbyn hyn, mae cynulleidfaoedd yn gwylio ac yn gwrando'n rheolaidd ar newyddion sy'n cael ei gynnwys mewn rhaglenni sy'n cynnwys deunydd heb fod yn newyddion, fel rhaglenni cylchgrawn dyddiol.[15] Gellir cynnwys newyddion mewn rhaglen nad yw'n rhaglen newyddion heb iddo gael ei ddiffinio'n glir o weddill y rhaglen yn yr un modd â bwletin newyddion confensiynol. Er enghraifft, gellid cynnwys fflach newyddion am ddigwyddiad newyddion sy'n torri neu ddiweddariad ar stori sy'n datblygu mewn rhaglen materion cyfoes fyw. Yn achos allbwn newyddion a materion cyfoes di-dor, gall darlledwyr symud fwy neu lai yn ddi-dor rhwng y mathau hyn o gynnwys.

2.18 Patrwm arall sy'n tyfu fu gwleidyddion yn cyflwyno rhaglenni, yn enwedig rhaglenni materion cyfoes. Mae hyn yn cael ei ganiatáu o dan y Cod ar yr amod bod didueddrwydd dyladwy yn cael ei gynnal. Nid yw'n ffenomen newydd, ond mae wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf, yn enwedig ar y teledu. Arweiniodd hyn at drafodaeth gyhoeddus a chraffu ar wleidyddion yn cyflwyno rhaglenni, a gafodd ei adlewyrchu yn y cynnydd yn nifer y cwynion a gafodd Ofcom am y math hwn o gynnwys yn 2023 a 2024. Arweiniodd hyn at gynnal ymchwil ar agweddau cynulleidfaoedd at wleidyddion yn cyflwyno rhaglenni, fel y nodir isod.

## Agweddau'r gynulleidfa

2.19 Ym mis Ebrill 2024, cyhoeddodd Ofcom adroddiad ar *Agweddau cynulleidfaoedd at wleidyddion yn cyflwyno rhaglenni ar y teledu a'r radio*[16], a oedd yn cyflwyno canlyniadau ymchwil defnyddwyr a gynhaliwyd ar ein rhan gan Ipsos UK. Roedd yr ymchwil yn edrych ar ddealltwriaeth cynulleidfaoedd o newyddion a materion cyfoes, a'u disgwyliadau o ran didueddrwydd dyladwy pan fydd gwleidyddion yn cyflwyno'r math hwn o gynnwys. Gwnaethom gomisiynu'r astudiaeth hon yng ngoleuni'r cynnydd yn nifer y rhaglenni a gyflwynir gan wleidyddion, diddordeb brwd y cyhoedd yn y mater hwn, ac i adeiladu ein tystiolaeth i lywio ein gwaith.

2.20 Dyma brif ganfyddiadau'r adroddiad:

- **Weithiau gall cynulleidfaoedd ei chael hi'n anodd gwahaniaethu rhwng newyddion a materion cyfoes.** Roedd y tebygrwydd rhwng newyddion a materion cyfoes, o ran y pynciau a drafodwyd a'r ffordd roeddent yn cael eu cyflwyno, weithiau'n arwain at ddryswch ymysg cyfranogwyr. Roedd hyn yn arbennig o wir pan roedd cyfranogwyr yn teimlo bod rhaglenni'n cynnwys y ddau fath o gynnwys.
- **Roedd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr yn reddfol yn erbyn cael gwleidyddion yn cyflwyno'r newyddion, gan eu bod yn disgwyl iddo fod yn ffeithiol ac yn teimlo y byddai'n naturiol fod gan wleidyddion safbwynt i'w hyrwyddo.** Roedd y cyfranogwyr o'r farn y dylid dal newyddion i safon uwch na materion cyfoes oherwydd bod ganddo gynulleidfa ehangach sy'n gwrando i glywed ffeithiau. Roedd pryderon ynghylch a fyddai cynulleidfaoedd yn gallu adnabod bod y newyddion yn

[15] Er enghraifft, *Good Morning Britain* (ITV1); *Breakfast* (BBC 1).
[16] *Agweddau cynulleidfaoedd at wleidyddion yn cyflwyno rhaglenni ar deledu a radio;*, Ofcom/Ipsos UK, Ebrill 2024.

cael ei gyflwyno gan wleidydd ac ynghylch gwrthdaro posibl rhwng buddiannau. Roedd teimlad cryf y dylai rhywun diduedd gyflwyno'r newyddion ac y byddai cynulleidfaoedd yn disgwyl hyn.

- **Er bod pryder am wleidyddion yn cyflwyno materion cyfoes, nid oedd consensws i'w hatal rhag gwneud hynny.** Y farn fwyaf cyffredin oedd teimlo'n anghyfforddus gyda gwleidyddion yn cyflwyno materion cyfoes, ar sail y disgwyliad y byddent yn arwain sgyrsiau i gyfeiriad a oedd yn hyrwyddo eu plaid eu hunain ac o bosibl yn camarwain cynulleidfaoedd drwy beidio â lleisio pob safbwynt. Fodd bynnag, roedd y cyfranogwyr yn anghytuno ynghylch a ddylid atal gwleidyddion rhag cyflwyno materion cyfoes.
- **Roedd y cyfranogwyr yn cydbwyso pryderon am ddiffyg didueddrwydd dyladwy posibl yn erbyn pwysigrwydd rhyddid mynegiant.** Roedd y rhai a gredai y dylid caniatáu i wleidyddion gyflwyno materion cyfoes yn aml yn blaenoriaethu rhyddid mynegiant. Roedden nhw o'r farn y dylai gwleidyddion allu rhannu eu safbwyntiau heb ymyrraeth gan bwysleisio pa mor bwysig yw hi fod cynulleidfaoedd yn gallu dewis beth maent yn ei wylio ac yn gwrando arno. Roedd rhai cyfranogwyr yn cydnabod manteision posibl cael gwleidyddion yn cyflwyno materion cyfoes, gan gynnwys sut gallai hyn ddarparu mecanwaith atebolrwydd i'r cyhoedd.
- **Er nad oedd consensws i atal gwleidyddion rhag cyflwyno materion cyfoes, roedd cyfranogwyr o'r farn y gallai mesurau lliniaru penodol helpu i leddfu pryderon am gamarwain cynulleidfaoedd.** Roedd y mesurau lliniaru posibl a gefnogwyd gan gyfranogwyr yn cynnwys: ei gwneud yn haws gwahaniaethu'n weledol rhwng materion cyfoes a newyddion ar y teledu; dweud wrth gynulleidfaoedd bod gwleidydd yn cyflwyno ac egluro eu cysylltiad â phlaid; egluro pwy sy'n cyfrif fel "gwleidydd" at ddibenion y rheolau; atal gwleidyddion rhag cyfweld aelodau o'u plaid eu hunain; a sicrhau bod gwleidyddion yn cyflwyno safbwyntiau amgen yn gadarn ac yn barchus.

## Gwaith gorfodi diweddar Ofcom a dyfarniad gan yr Uchel Lys

2.21 Fel yr eglurwyd uchod, yn 2023 a 2024, cafodd Ofcom fwy o gwynion am wleidyddion yn cyflwyno rhaglenni, gan gynnwys cwynion bod gwleidyddion yn cyflwyno'r newyddion. Yn ei dro arweiniodd hyn at fwy o weithgarwch rheoleiddio mewn perthynas â'r mater.

2.22 Yn fwyaf penodol, ar 18 Mawrth 2024, canfu Ofcom fod pum rhaglen a ddarlledwyd ar GB News wedi torri Rheolau 5.1 a 5.3 y Cod. Roedd GB News wedi herio dau o'r penderfyniadau hyn, yn ymwneud â rhifynnau *Jacob Rees-Mogg's State of the Nation* a ddarlledwyd ar 9 Mai ac 13 Mehefin 2023, drwy adolygiad barnwrol.

2.23 Ar 28 Chwefror 2025, cyhoeddodd yr Uchel Lys ei ddyfarniad.[17] Canfu'r Uchel Lys, yn ôl y gyfraith, na all rhaglen fod yn rhaglen newyddion ac yn rhaglen materion cyfoes ar yr un pryd. Roedd yn cynnal, fel y mae wedi'i eirio ar hyn o bryd, mae Rheol 5.3 yn berthnasol i wleidyddion sy'n gweithredu fel darllenydd newyddion, cyfwelydd newyddion neu ohebydd newyddion mewn "rhaglenni newyddion" yn unig. Rhaglen materion cyfoes oedd *Jacob Rees-Mogg's State of the Nation*. Mae gwleidyddion sy'n gweithredu fel darllenydd newyddion, cyfwelydd newyddion neu ohebydd newyddion mewn unrhyw raglenni eraill,

[17] *R (ar gais GB News Limited) v Ofcom [2025] EWHC 460 (Gweinyddol)*

gan gynnwys rhaglenni materion cyfoes, yn disgyn y tu allan i Reol 5.3 ac yn cael eu rheoleiddio dan Reol 5.1. Yn unol â hynny diddymodd yr Uchel Lys ddau benderfyniad Ofcom a gofyn iddo eu hailystyried.

2.24 Yn dilyn dyfarniad yr Uchel Lys, fe wnaethom gadarnhau ein bod yn derbyn arweiniad y Llys. Gwnaethom gyhoeddi y byddem yn adolygu ac yn ymgynghori ar ddiwygiadau arfaethedig i'r Cod i atal gwleidyddion rhag cyflwyno newyddion mewn unrhyw fath o raglen, er mwyn sicrhau bod hyn yn glir i bob darlledwr.[18]

2.25 Fe wnaethom benderfynu peidio ag ailymchwilio i'r ddau rifyn o *Jacob Rees-Mogg's State of the Nation* a oedd wedi cael eu rhoi'n ôl i ni. Yn unol â hynny, ar 13 Mawrth 2025, fe wnaethom dynnu'r tri phenderfyniad tor-amod arall yn erbyn GB News yn ôl ac un penderfyniad "na aethpwyd ar ei drywydd" a dileu'r chwe phenderfyniad o gofnod cydymffurfio GB News.[19]

# Rhesymeg y diwygiad arfaethedig i Reol 5.3

## Gwleidyddion yn cyflwyno rhaglenni

2.26 Mae Adran 319 o'r Ddeddf yn mynnu bod Ofcom yn gosod safonau i sicrhau amrywiaeth o amcanion, gan gynnwys bod "newyddion sydd wedi'i gynnwys mewn gwasanaethau teledu a radio yn cael ei gyflwyno gyda didueddrwydd dyladwy" (adran 319(2)(c) o'r Ddeddf). Diben Rheol 5.3 o'r Cod yw cyflawni'r amcan hwn.

2.27 O'r herwydd, mae Rheol 5.3 yn rhan o gynllun rheoleiddio ehangach sy'n ceisio cynnal ymddiriedaeth cynulleidfaoedd mewn newyddion sy'n cael ei ddarlledu a sicrhau ei fod yn cael ei gyflwyno gyda didueddrwydd dyladwy. Roedd rheol debyg yng Nghod Rhaglenni'r Comisiwn Teledu Annibynnol a Chod yr Awdurdod Radio (edrychwch ar baragraffau A1.24 ac A1.25 Atodiad A1 isod).

2.28 Cafodd y fframwaith rheoleiddio ei ddylunio i fod yn ddigon hyblyg i ymateb i arloesedd a newid technolegol, ar sail egwyddorion cyffredinol y gellir eu defnyddio'n gyson mewn tirwedd ddarlledu sy'n esblygu. O ystyried pwysigrwydd sylfaenol cynnal ymddiriedaeth cynulleidfaoedd mewn newyddion sy'n cael ei ddarlledu, ac o ystyried y ffaith y gall genres rhaglenni a thechnegau golygyddol newid yn sylweddol dros amser, nid yw'r Cod yn cynnwys diffiniad o "newyddion". Mae'n bwysig nodi nad oedd y Senedd wedi diffinio "newyddion" yn y Ddeddf ac roedd yn amlwg ei fod wedi'i fwriadu i fod â chwmpas eang ac i fod yn berthnasol i "newyddion ar ba ffurf bynnag" (adran 319(8) o'r Ddeddf).

2.29 Mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn yr egwyddorion sylfaenol a nodir ar ddechrau Adran Pump y Cod, yn enwedig yr egwyddor gyntaf bod Adran Pump yn *"sicrhau bod newyddion, ar ba bynnag ffurf, yn cael ei adrodd gyda chywirdeb dyladwy ac yn cael ei gyflwyno gyda didueddrwydd dyladwy"*. Yn yr un modd, mae Rheol 5.1 yn datgan: "*Rhaid adrodd newyddion, ar ba bynnag ffurf, gyda chywirdeb dyladwy a'i gyflwyno gyda didueddrwydd dyladwy".* Mae'r Canllawiau sy'n cyd-fynd ag Adran Pump yn egluro y byddai "*newyddion ar*

[18] Datganiad Ofcom mewn ymateb i Ddyfarniad yr Uchel Lys: GB News v Ofcom, Ofcom, 28 Chwefror 2025.
[19] Roedd Ofcom hefyd wedi rhoi'r gorau i chwe ymchwiliad agored o dan Reolau 5.1 a 5.3. Mae manylion yr ymchwiliadau hyn fel a ganlyn: *Jake Berry*, Talk TV, 12 Rhagfyr 2023; *Jake Berry*, Local TV, 12 Rhagfyr 2023; *Farage*, GB News, 17 Ionawr 2024; *David Lammy*, LBC 97.3FM, 29 Mawrth 2024; *Alex Phillips*, Talk, 22 Mai 2024; *Morning Glory*, Talk, 19 Gorffennaf 2024.

*ba ffurf bynnag* yn cynnwys bwletinau newyddion, fflachiadau newyddion a rhaglenni cylchgrawn newyddion dyddiol"[20] [wedi ychwanegu pwyslais].

2.30 Ym marn Ofcom, mae'r rhesymeg polisi dros gyfyngiad y Cod ar ddefnyddio gwleidyddion fel darllenydd newyddion, cyfwelydd newyddion neu ohebydd newyddion yn glir. Mae gwleidyddion yn gynrychiolwyr gwleidyddol. Maent yn cynrychioli plaid wleidyddol benodol, pob un â'i hideoleg wleidyddol, ei hagweddau a'i safbwyntiau polisi ei hun. Felly, mae cynulleidfaoedd yn debygol o ddeall bod gwleidyddion yn bobl sydd â diddordeb cynhenid mewn hyrwyddo safbwynt pleidiol ar faterion cyfoes. Felly, rydym o'r farn bod gwleidyddion sy'n cael eu defnyddio i gyflwyno newyddion mewn perygl o danseilio uniondeb a hygrededd newyddion sy'n cael ei ddarlledu sy'n cael ei reoleiddio.

2.31 Mae'r Canllawiau sy'n mynd gydag Adran Pump o'r Cod yn datgan: "At ddibenion Rheol 5.3, mae gwleidydd yn debygol o gynnwys cynrychiolydd etholedig e.e. AS neu gynghorydd, ymgeisydd, rhywun sy'n sefyll i fod yn ymgeisydd neu ddarpar ymgeisydd (hynny yw ymgeisydd sy'n cael ei ethol ac sy'n gwybod ei fod wedi cael ei ddewis i gynrychioli plaid mewn etholiad); cyflogai i blaid wleidyddol; neu ymgyrchydd."[21]

2.32 Mae'r cyfyngiad ar wleidyddion yn Rheol 5.3 y Cod yn atgyfnerthu ac yn hyrwyddo safon gyffredinol didueddrwydd dyladwy ar gyfer newyddion sy'n cael ei ddarlledu sy'n ofynnol gan yr amcan safonau bod "newyddion, ar ba ffurf bynnag, yn cael ei gyflwyno gyda didueddrwydd dyladwy". Nid yw rheol 5.3 wedi cael ei diwygio ers 2005, fodd bynnag, fel y nodir uchod, mae'r dirwedd cyfryngau y mae newyddion yn cael ei ddarparu ynddi wedi newid yn sylfaenol, gyda'r gwahaniaeth rhwng cynnwys newyddion a materion cyfoes yn dod yn fwy aneglur.

2.33 Fel y nodwyd ym mharagraff 2.20 uchod, mae ymchwil diweddar Ofcom yn dangos bod cynulleidfaoedd yn reddfol yn erbyn cael gwleidyddion yn cyflwyno'r newyddion, gan eu bod yn disgwyl i'r newyddion fod yn ffeithiol ac yn teimlo y byddai'n naturiol fod gan wleidyddion safbwynt i'w hyrwyddo.[22] Wrth osod, adolygu a defnyddio'r Cod, mae'n bwysig bod Ofcom yn ystyried yr angen i gynnal y lefel uchel o ymddiriedaeth y mae cynulleidfaoedd yn ei rhoi mewn newyddion sy'n cael ei ddarlledu a disgwyliadau cynulleidfaoedd y bydd newyddion sy'n cael ei ddarlledu yn cael ei gyflwyno gyda didueddrwydd dyladwy.

2.34 Roedd ymchwil ddiweddar Ofcom hefyd yn dangos bod diffyg consensws ymysg cynulleidfaoedd ynghylch atal gwleidyddion rhag cyflwyno materion cyfoes. Roedd rhai cyfranogwyr yn teimlo'n anghyfforddus gyda gwleidyddion yn cyflwyno materion cyfoes, oherwydd eu bod yn disgwyl y byddent yn cynnal sgyrsiau mewn ffordd bleidiol ac o bosibl yn camarwain cynulleidfaoedd, ond yn gyffredinol roedd y cyfranogwyr yn rhanedig ar y cwestiwn a ddylid gwahardd yr arfer hwn. Roedd rhai cyfranogwyr yn blaenoriaethu rhyddid mynegiant ac yn cydnabod manteision posibl cael gwleidyddion yn cyflwyno materion cyfoes, fel darparu mecanwaith atebolrwydd i'r cyhoedd.

2.35 Nid ydym yn credu ar hyn o bryd bod digon o dystiolaeth i gyfiawnhau Ofcom yn atal gwleidyddion rhag cyflwyno rhaglenni materion cyfoes ar y teledu neu ar y radio. Rydym wedi ystyried y diffyg consensws i wneud hynny a ddatgelodd ein hymchwil, gan gynnwys ar ôl ystyried y manteision posibl o gael gwleidyddion yn cyflwyno materion cyfoes roedd

[20] Gweler paragraff 1.12 Canllawiau Adran Pump o'r Cod.

[21] Gweler paragraff 1.26 Canllawiau Adran Pump o'r Cod.

[22] *Agweddau cynulleidfaoedd at wleidyddion yn cyflwyno rhaglenni ar deledu a radio*, tudalennau 18-20.

cyfranogwyr wedi sôn amdanynt. Yn benodol, rydym yn nodi'r pryderon am ymyrryd gormod â'r hawl i ryddid mynegiant. Rydym hefyd o'r farn bod digon o amddiffyniadau yn y Cod yn barod i sicrhau bod didueddrwydd dyladwy yn cael ei gadw mewn cynnwys materion (yn ogystal â materion pwysig) sy'n destun dadlau gwleidyddol neu ddiwydiannol neu faterion sy'n ymwneud â pholisi cyhoeddus cyfredol. Mae hyn yn cynnwys mewn amgylchiadau lle mae gwleidydd yn cyflwyno rhaglenni am faterion o'r fath.[23] Rydym yn gwybod am lawer o enghreifftiau lle mae gwasanaethau sydd wedi'u trwyddedu gan Ofcom wedi sicrhau bod cynnwys o'r fath yn cydymffurfio â'r Cod, er gwaethaf y risgiau posibl o ran cydymffurfio. Yn olaf, roedd y Ddeddf yn amlwg yn bwriadu y dylid cael lefel uwch o ddiogelwch i'r newyddion o'i gymharu â chynnwys nad yw'n newyddion (gweler Atodiad A1).

2.36 Yn y cyd-destun hwn, ac wrth ystyried yr angen sylfaenol i gadw didueddrwydd dyladwy newyddion sy'n cael ei ddarlledu fel y nodir uchod, mae Ofcom yn credu bod angen eglurder am gwmpas Rheol 5.3. Byddai ein diwygiad arfaethedig i Reol 5.3 yn egluro bod y cyfyngiad ar wleidyddion yn cyflwyno newyddion yn berthnasol i newyddion mewn unrhyw fath o raglen sy'n cael ei chynnwys mewn gwasanaeth, ac nad yw wedi'i gyfyngu i "raglenni newyddion".

[23] Er enghraifft: *Saturday Morning with Esther and Philip*, GB News, 11 Mawrth 2023

# 3. Diwygiad arfaethedig i Reol 5.3 o'r Cod

3.1 Yn yr ymgynghoriad hwn, mae Ofcom yn cynnig diwygio Rheol 5.3 o'r Cod a'r canllawiau cysylltiedig. Mae'r adran hon yn nodi:

- testun y fersiwn diwygiedig arfaethedig o'r rheol; a
- chwestiynau cysylltiedig yr ymgynghoriad.

## Diwygiad arfaethedig i Reol 5.3

3.2 Mae fersiwn gyfredol Rheol 5.3 yn atal gwleidyddion rhag cyflwyno rhaglenni newyddion (oni bai fod cyfiawnhad golygyddol eithriadol). Y tu hwnt i hyn, nid oes unrhyw reol sy'n atal gwleidydd rhag cyflwyno neu ymddangos ar raglen deledu neu radio, ar yr amod:

- bod y darlledwr yn cadw didueddrwydd dyladwy ar faterion a materion pwysig sy'n destun dadlau gwleidyddol neu ddiwydiannol neu sy'n ymwneud â pholisi cyhoeddus cyfredol[24]; a
- nad yw'r gwleidydd yn ymgeisydd mewn etholiad yn y DU nac yn gynrychiolydd i gyfranogwr a ganiateir mewn refferendwm yn y DU sy'n cael ei gynnal.[25]

Mae hyn yn golygu bod gwleidyddion yn cael cyflwyno rhaglenni materion cyfoes sy'n delio â materion (yn ogystal â materion pwysig) sy'n destun dadlau gwleidyddol neu ddiwydiannol ac sy'n ymwneud â pholisi cyhoeddus cyfredol, cyn belled â bod camau'n cael eu cymryd i sicrhau bod y rhaglen yn adlewyrchu safbwyntiau gwahanol a/neu'n rhoi cyd-destun priodol.

**3.3** Ar hyn o bryd mae Rheol 5.3 y cod yn datgan: **"Ni cheir defnyddio unrhyw wleidydd fel darllenydd newyddion, cyfwelydd neu ohebydd mewn unrhyw raglenni newyddion oni bai fod cyfiawnhad golygyddol dros hynny mewn achosion eithriadol. Mewn achos o'r fath, rhaid egluro teyrngarwch gwleidyddol y person hwnnw i'r gynulleidfa."**

3.4 Mae Canllawiau Ofcom ar Adran Pump y Cod yn cynnwys canllawiau penodol ar Reol 5.3, fel sy'n cael eu crynhoi isod ym mharagraff A1.17 Atodiad A1.

3.5 Am y rhesymau a nodir uchod ym mharagraffau 2.4 i 2.8, mae Ofcom o'r farn ei bod yn bwysig cadw didueddrwydd dyladwy mewn newyddion, gan gynnwys drwy atal gwleidyddion rhag cyflwyno'r math hwn o gynnwys mewn unrhyw fath o raglen sydd wedi'i chynnwys mewn gwasanaeth teledu neu radio.

3.6 Felly, rydym yn cynnig diwygio Rheol 5.3 o'r Cod i'w gwneud yn glir i ddarlledwyr bod y rheol hon yn atal gwleidyddion rhag cyflwyno newyddion ym mhob math o raglen. Yn benodol, ni cheir defnyddio gwleidyddion fel darllenwyr newyddion, cyfwelwyr newyddion na gohebwyr newyddion mewn unrhyw fath o raglen, ac eithrio lle mae cyfiawnhad

---

[24] Gweler Rheolau 5.5, 5.11 a 5.12 o'r Cod.

[25] Ymgeisydd, rhywun sy'n sefyll i fod yn ymgeisydd neu ddarpar ymgeisydd (h.y. ymgeisydd mewn etholiad sy'n gwybod ei fod wedi cael ei ddewis i gynrychioli plaid mewn etholiad).

golygyddol eithriadol. Mewn achosion o’r fath, mae’n rhaid i ddarlledwyr egluro teyrngarwch gwleidyddol y person hwnnw i’r gynulleidfa.

3.7 Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, rydym yn ystyried bod defnyddio gwleidyddion fel darllenwyr newyddion, cyfwelwyr newyddion neu ohebwyr newyddion yn golygu cyflwyno’r newyddion.

3.8 Mae'r diwygiad arfaethedig i Reol 5.3 o’r Cod yn cael ei roi’n llawn isod. Ym marn Ofcom, mae’n cyd-fynd â’r cynllun deddfwriaethol; yn adlewyrchu pwysigrwydd cadw didueddrwydd dyladwy mewn newyddion; ac yn ymateb i’r angen i egluro cwmpas y rheol.

**Tabl 1: Diwygiad arfaethedig i Reol 5.3 o God Darlledu Ofcom**

| | Testun cyfredol | Testun arfaethedig |
|---|---|---|
| **Rheol 5.3** | Ni cheir defnyddio unrhyw wleidydd fel darllenydd newyddion, cyfwelydd neu ohebydd mewn unrhyw raglenni newyddion oni bai fod cyfiawnhad golygyddol dros hynny mewn achosion eithriadol. Mewn achos o’r fath, rhaid egluro teyrngarwch gwleidyddol y person hwnnw i’r gynulleidfa. | Ni cheir defnyddio unrhyw wleidydd fel darllenydd newyddion, cyfwelydd newyddion neu ohebydd newyddion mewn unrhyw fath o raglen oni bai fod cyfiawnhad golygyddol dros hynny mewn achosion eithriadol. Mewn achos o’r fath, rhaid egluro teyrngarwch gwleidyddol y person hwnnw i’r gynulleidfa. |

3.9 Nid oes angen unrhyw ddiwygiadau canlyniadol i’r rheolau eraill nac i’r wybodaeth ategol er mwyn sicrhau bod y Cod yn ddarllenadwy ac yn gallu cael ei ryngweithredu. Mae Atodiad A2 yn cynnwys fersiwn anodedig o destun diwygiedig Adran Pump o’r Cod, gan ddangos y diwygiad arfaethedig i Reol 5.3 mewn cyd-destun.

3.10 Fel y nodir ym mharagraffau A1.27 i A1.35 yn Atodiad A1 isod, rhaid i Ofcom gyflawni ei ddyletswyddau yn unol â’r hawl i ryddid mynegiant a nodir yn Erthygl 10 o’r Confensiwn. Rydym o’r farn bod cyfiawnhad dros yr ymyriad â rhyddid mynegiant sy’n gysylltiedig ag atal gwleidyddion rhag cyflwyno newyddion mewn unrhyw fath o raglen. Gweler Atodiad A4 i weld ein dadansoddiad manwl am hyn.

## Diwygiad arfaethedig i’r Canllawiau i Reol 5.3

3.11 Rydym yn cynnig diwygio Canllawiau Ofcom ar Adran Pump o’r Cod i adlewyrchu’r newidiad arfaethedig i Reol 5.3. Mae Atodiad A3 yn rhoi fersiwn anodedig o’r Canllawiau diwygiedig, sy’n dangos y diwygiadau arfaethedig i’r Canllawiau ar Reol 5.3.

## Cwestiynau’r ymgynghoriad

3.12 Mae Ofcom yn croesawu safbwyntiau rhanddeiliaid ar y diwygiadau arfaethedig i Reol 5.3 y Cod a’r Canllawiau cysylltiedig. Mae cwestiynau’r ymgynghoriad ar gael isod ac yn Atodiad A8.

**Cwestiwn 1 yr Ymgynghoriad:**

Ydych chi’n cytuno â’r diwygiad arfaethedig i Reol 5.3 o God Darlledu Ofcom? Rhowch resymau dros eich ateb.

**Cwestiwn 2 yr Ymgynghoriad:**

Ydych chi’n credu y bydd Rheol 5.3 o God Darlledu Ofcom, os caiff ei ddiwygio’n unol â’r cynnig, yn rhoi digon o amddiffyniad i gynulleidfaoedd? Rhowch resymau dros eich ateb.

**Cwestiwn 3 yr Ymgynghoriad:**

Ydych chi’n cytuno â’r asesiad o effeithiau posibl y diwygiad arfaethedig i Reol 5.3 o God Darlledu Ofcom (fel y nodir yn Atodiad A2)? Rhowch resymau dros eich ateb.

**Cwestiwn 4 yr Ymgynghoriad:**

Ydych chi’n cytuno â’r diwygiadau arfaethedig i’r Canllawiau ar Reol 5.3?

**Cwestiwn 5 yr Ymgynghoriad:**

Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill i’w gwneud am y cynigion, gan gynnwys yng nghyswllt cwmpas y newidiadau arfaethedig?

# A1. Cefndir deddfwriaethol a rheoleiddiol

## Dyletswyddau cyffredinol

A1.1 Ofcom yw'r rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gwasanaethau cyfathrebiadau yn y DU. Mae gennym gyfrifoldebau rheoleiddio ar gyfer y sectorau darlledu, telegyfathrebiadau a phost, yn ogystal â gwasanaethau ar-lein.

A1.2 Mae Deddf Cyfathrebiadau 2003 ("y Ddeddf") yn rhoi nifer o ddyletswyddau ar Ofcom y mae'n rhaid i ni eu cyflawni wrth weithredu ein swyddogaethau rheoleiddio, gan gynnwys mewn perthynas â darlledu. Mae adran 3(1) o'r Ddeddf yn datgan mai ein prif ddyletswydd, wrth gyflawni ein swyddogaethau yw:

- hyrwyddo buddiannau dinasyddion mewn perthynas â materion cyfathrebu; a
- hyrwyddo buddiannau defnyddwyr mewn marchnadoedd perthnasol, pan fo'n briodol, drwy hybu cystadleuaeth.

A1.3 Wrth gyflawni'r brif ddyletswydd honno, mae'n rhaid i ni ystyried yr egwyddorion a nodir yn y Ddeddf sy'n datgan y dylai gweithgareddau rheoleiddio fod yn dryloyw, yn atebol, yn gymesur, yn gyson ac wedi'u targedu dim ond at achosion lle mae angen cymryd camau, yn ogystal ag unrhyw egwyddorion eraill sy'n ymddangos i ni fel rhai sy'n cynrychioli'r ymarfer rheoleiddio gorau.[26]

A1.4 Wrth gyflawni ein swyddogaethau, mae'n rhaid i Ofcom sicrhau, yn benodol, bod safonau ar waith sy'n rhoi digon o amddiffyniad i aelodau'r cyhoedd rhag cynnwys deunydd sy'n achosi tramgwydd a niwed mewn gwasanaethau teledu a radio.[27]

A1.5 Mae Adran 3(4) o'r Ddeddf yn darparu ymhellach ei bod yn rhaid i ni, wrth gyflawni ein dyletswyddau, ystyried rhai materion sy'n ymddangos yn berthnasol i ni yn yr amgylchiadau, gan gynnwys:

- yr angen i sicrhau bod y safonau yn achos gwasanaethau teledu a radio yn cael eu rhoi ar waith yn y ffordd sy'n gwarantu orau lefel briodol o ryddid mynegiant;
- barn defnyddwyr mewn marchnadoedd perthnasol a'r cyhoedd yn gyffredinol; a
- y diddordebau gwahanol sydd gan bobl yn y gwahanol rannau o'r Deyrnas Unedig, y gwahanol gymunedau ethnig yn y Deyrnas Unedig a phobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig a threfol.[28]

## Cod Darlledu Ofcom

A1.6 Mae Adran 319 o'r Ddeddf yn mynnu bod Ofcom yn gosod, ac o bryd i'w gilydd, yn adolygu ac yn diwygio safonau ar gyfer cynnwys rhaglenni teledu a radio, fel rydym yn credu sydd orau er mwyn sicrhau'r amcanion o ran safonau a nodir o dan adran 319(2) o'r Ddeddf.

[26] Adran 3(3) o'r Ddeddf.
[27] Adran 2(e) o'r Ddeddf.
[28] Adran 4(g) o'r Ddeddf.

A1.7 Mae'r amcanion hyn yn cynnwys y bydd newyddion sydd wedi'i gynnwys mewn gwasanaethau teledu a radio yn cael ei gyflwyno gyda didueddrwydd dyladwy, ac y cydymffurfir â'r gofynion o ran didueddrwydd yn adran 320 o'r Ddeddf.[29] Mae Adran 319(8) yn egluro bod "newyddion" yn golygu newyddion ar ba ffurf bynnag y mae wedi'i gynnwys mewn gwasanaeth.

A1.8 Wrth osod neu ddiwygio safonau, rhaid i Ofcom roi sylw i bob un o'r materion canlynol, yn benodol ac i'r graddau y gwêl hynny'n berthnasol:

- maint y niwed neu dramgwydd sy'n debygol o gael ei achosi drwy gynnwys unrhyw fath penodol o ddeunydd mewn rhaglenni'n gyffredinol neu mewn rhaglenni o fath penodol;
- maint a chyfansoddiad tebygol y gynulleidfa bosibl i raglenni sydd wedi'u cynnwys mewn gwasanaethau teledu a radio'n gyffredinol, neu mewn gwasanaethau teledu a radio o fath penodol;
- disgwyliad tebygol y gynulleidfa o ran natur cynnwys rhaglen a'r graddau y gellir dod â natur cynnwys rhaglen i sylw aelodau posibl y gynulleidfa;
- y tebygolrwydd y bydd unigolion nad ydynt yn ymwybodol o natur cynnwys rhaglen yn dod yn agored yn anfwriadol, drwy eu gweithredoedd eu hunain, i'r cynnwys hwnnw;
- pa mor ddymunol yw sicrhau bod cynnwys gwasanaethau'n adnabod pa bryd y ceir newid sy'n effeithio ar natur gwasanaeth y mae rhai'n ei wylio neu'n gwrando arno, ac yn benodol, newid sy'n berthnasol i gymhwyso'r safonau sydd wedi'u gosod dan yr adran hon; ac
- pa mor ddymunol yw cadw annibyniaeth y rheolaeth olygyddol dros gynnwys rhaglen.[30]

A1.9 Rhaid cynnwys y safonau a bennir gan Ofcom mewn un neu ragor o godau.[31] Mae Ofcom wedi cyhoeddi'r Cod Darlledu ("y Cod"), sydd wedi bod mewn grym ers 2005. Mae'r safonau sy'n deillio o'r gofynion didueddrwydd dyladwy yn adrannau 319 a 320 o'r Ddeddf yn cael eu hadlewyrchu yn Adrannau Pump (Didueddrwydd Dyladwy a Chywirdeb Dyladwy) a Chwech (Etholiadau a Refferenda). Mae'n rhaid i ddarlledwyr gydymffurfio â'r Cod fel un o amodau eu trwydded.

A1.10 Mae Adran 324 yn mynnu bod yn rhaid i Ofcom, cyn gosod neu addasu safonau, gyhoeddi drafft o'r cod arfaethedig sy'n cynnwys y safonau hynny. Rhaid i Ofcom ymgynghori â darlledwyr a rhai pobl eraill fel sy'n addas yn ein barn ni, gan gynnwys y rheini sy'n cynrychioli buddiannau cynulleidfaoedd. Rhaid i Ofcom wedyn gyhoeddi'r cod sy'n cynnwys y safonau diwygiedig ac anfon copi ohono at yr Ysgrifennydd Gwladol ymysg eraill.

---

[29] Adran 319(2)(c) o'r Ddeddf. Mae Adran 320 o'r Ddeddf yn nodi'r gofynion didueddrwydd arbennig sy'n berthnasol i bob rhaglen. Mae'r rhain yn cynnwys cadw didueddrwydd dyladwy mewn perthynas â materion gwleidyddol neu ddiwydiannol sy'n destun dadlau helaeth a materion pwysig sy'n ymwneud â pholisi cyhoeddus cyfredol. Mae gofyniad tebyg mewn perthynas â materion gwleidyddol neu ddiwydiannol sy'n destun dadlau helaeth a materion pwysig sy'n ymwneud â pholisi cyhoeddus cyfredol.

[30] Adran 319(4) o'r Ddeddf.

[31] Adran 319(3) o'r Ddeddf.

# Adran Pump y Cod

A1.11 Mae Adran Pump y Cod yn dechrau drwy nodi dwy "Egwyddor" arweiniol, y mae'r rheolau canlynol yn berthnasol iddynt, sef: "sicrhau bod newyddion, ym mha bynnag ffurf, yn cael ei adrodd gyda chywirdeb dyladwy a didueddrwydd dyladwy"; a "sicrhau y cydymffurfir â gofynion y Ddeddf o ran didueddrwydd arbennig".[32]

A1.12 Mae Rheolau 5.1 i 5.3 yn berthnasol i newyddion. Mae Rheol 5.1 yn datgan "Rhaid adrodd newyddion, ar ba bynnag ffurf, gyda chywirdeb dyladwy a'u cyflwyno gyda didueddrwydd dyladwy". Mae'r rheol hon yn berthnasol i raglenni o'r fath yn eu cyfanrwydd, nid dim ond i'r graddau y mae'n ymwneud â materion (yn ogystal â materion pwysig) sy'n destun dadlau gwleidyddol neu ddiwydiannol neu sy'n ymwneud â pholisi cyhoeddus cyfredol.

A1.13 Mae Rheol 5.2 yn ymwneud â chydnabod a chywiro camgymeriadau sylweddol mewn newyddion.

A1.14 Ar ei ffurf bresennol mae Rheol 5.3 yn datgan "Ni cheir defnyddio unrhyw wleidydd fel darllenydd newyddion, cyfwelydd neu ohebydd mewn unrhyw raglenni newyddion oni bai fod cyfiawnhad golygyddol dros hynny mewn achosion eithriadol. Mewn achos o'r fath, rhaid egluro teyrngarwch gwleidyddol y person hwnnw i'r gynulleidfa".

A1.15 Y tu hwnt i raglenni newyddion, nid oes unrhyw reol gan Ofcom sy'n atal gwleidydd rhag cyflwyno neu ymddangos ar raglen deledu neu radio – ar yr amod nad yw'n sefyll fel ymgeisydd mewn etholiad sy'n cael ei gynnal, neu sydd ar fin cael ei gynnal, neu'n gynrychiolydd i gyfranogwr a ganiateir, fel y dynodir gan y Comisiwn Etholiadol, mewn refferendwm yn y DU.[33] Mae hyn yn golygu bod gwleidyddion yn cael cyflwyno rhaglenni materion cyfoes fel rhaglenni ffonio i gynulleidfaoedd a rhaglenni trafod. Rhaid i raglenni newyddion a rhaglenni materion cyfoes ill dau gydymffurfio â'r holl reolau perthnasol yn y Cod, gan gynnwys yr angen i gadw didueddrwydd dyladwy ar faterion[34] (yn ogystal â materion pwysig[35]) sy'n destun dadlau gwleidyddol neu ddiwydiannol neu sy'n ymwneud â pholisi cyhoeddus cyfredol.

A1.16 Mae gweddill y rheolau yn Adran Pump yn berthnasol i newyddion a mathau eraill o raglenni.

A1.17 Mae Ofcom hefyd wedi cyhoeddi canllawiau ar y Cod ("y Canllawiau"), gan gynnwys ar Adrannau Pump a Chwech. Mae'r canllawiau presennol ar Reol 5.3 yn nodi y gallai defnyddio gwleidyddion fel gohebwyr neu gyflwynwyr mewn rhaglenni newyddion fod yn broblem yng nghyd-destun y gofyniad am ddidueddrwydd dyladwy. Maent yn egluro, at ddibenion Rheol 5.3, bod "gwleidydd" yn debygol o gynnwys cynrychiolydd etholedig (e.e. AS neu gynghorydd); ymgeisydd, rhywun sy'n sefyll i fod yn ymgeisydd, neu ddarpar

[32] Y "gofynion didueddrwydd arbennig" yw'r gofynion o dan adran 320 o'r Ddeddf, sy'n cael eu hadlewyrchu'n benodol yn Rheolau 5.5, 5.6, 5.11 a 5.12 o'r Cod.
[33] Mae hyn wedi'i wahardd o dan Reol 6.6 o'r Cod.
[34] Mae materion gwleidyddol neu ddiwydiannol sy'n destun dadlau'n faterion gwleidyddol neu ddiwydiannol y mae gwleidyddion, diwydiant a/neu'r cyfryngau'n dadlau yn eu cylch. Nid yw materion sy'n ymwneud â pholisi cyhoeddus cyfredol yn destun dadlau o reidrwydd ond maent yn ymwneud â pholisi sy'n destun trafod neu sydd wedi'i bennu eisoes gan lywodraeth genedlaethol, ranbarthol neu leol neu gan gyrff sydd wedi'u hawdurdodi gan y cyrff cyhoeddus hynny i wneud polisi ar eu rhan, er enghraifft, cyrff anllywodraethol, sefydliadau rhyngwladol perthnasol, etc.
[35] Bydd y rhain yn amrywio yn ôl digwyddiadau ond fel arfer maent yn faterion gwleidyddol neu ddiwydiannol sy'n destun dadlau neu'n faterion sy'n ymwneud â pholisi cyhoeddus cyfredol sydd o bwys cenedlaethol, ac yn aml o bwys rhyngwladol, neu'n rhai o bwysigrwydd tebyg o fewn ardal ddarlledu lai.

ymgeisydd (h.y. ymgeisydd sy'n cael ei ethol ac sy'n gwybod ei fod wedi cael ei ddewis i gynrychioli plaid wleidyddol mewn etholiad); cyflogai i blaid wleidyddol; neu ymgyrchydd.[36]

## Hanes a rhesymeg y gofynion perthnasol

A1.18 Mae Adran Pump y Cod wedi bodoli ar ei ffurf bresennol ers cyhoeddi'r Cod am y tro cyntaf yn 2005. Fodd bynnag, mae darlledwyr trwyddedig wedi bod yn destun gofynion cywirdeb dyladwy a didueddrwydd dyladwy wrth gyflwyno newyddion ers 1954, ac mae'r rhain wedi cael eu hailddeddfu dro ar ôl tro gan y Senedd ers hynny.[37]

A1.19 Mae gallu cael gafael ar newyddion cywir a diduedd wedi cael ei ystyried yn hanfodol i ddemocratiaeth, yn ogystal â gallu dinasyddion i ymddiried bod adroddiadau newyddion yn gywir ac yn ddiduedd. Fel y nododd Prif Weithredwr y Comisiwn Teledu Annibynnol ("ITC") mewn papur ymchwil a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2002:

> "Ni ellir cymryd mynediad at newyddion dibynadwy, llawn gwybodaeth yn fwy caniataol nag aer glân. Rhaid cael gweithredoedd ymwybodol o bolisi cyhoeddus i'w warantu."[38]

A1.20 Yn ôl papur polisi gan yr Adran Masnach a Diwydiant ar y Bil Cyfathrebiadau drafft:

> "Mae gwasanaethau newyddion yn cyflawni swyddogaeth hanfodol mewn cymdeithas ddemocrataidd. Maent yn rhoi llwyfan i drafodaeth agored, ac yn caniatáu i ddinasyddion wneud penderfyniadau gwybodus a chyfrifol. Mae llawer yn credu bod newyddion teledu yn arbennig o ddibynadwy, ac un o egwyddorion rheoleiddio yw sicrhau bod newyddion diduedd o ansawdd uchel ar gael i'r holl wylwyr."[39]

A1.21 Yn benodol, mae'r safonau didueddrwydd dyladwy sy'n ofynnol o dan adrannau 319 a 320 o'r Ddeddf yn rhan o gyfres o fesurau triphlyg (gwahardd hysbysebu gwleidyddol am dâl[40] a darparu darllediadau gwleidyddol a darllediadau etholiadol gan bleidiau am ddim yn unol â'r rheolau diffiniedig[41] yw'r lleill) sy'n ceisio diogelu uniondeb dadl ddemocrataidd ar faterion o bwys cyhoeddus drwy atal llwyfannau cyfryngau darlledu dylanwadol rhag cael eu herwgipio gan fuddiannau cyfoethog neu fuddiannau sydd mewn safle da, sy'n hyrwyddo agenda bleidiol. Roedd Papur Gwyn[42] y Llywodraeth a gyhoeddwyd cyn y Bil Cyfathrebiadau ym mis Rhagfyr 2000 yn datgan y byddai'r rhwymedigaethau didueddrwydd dyladwy yn parhau i fod "wrth galon gwasanaethau darlledu trwyddedig" ac eglurodd:

---

[36] Paragraffau 1.25-1.26 Canllawiau Adran Pump o'r Cod.
[37] Gweler: Deddf Teledu 1954, adran 3(1)(c); Deddf Teledu 1964, adran 3(1)(b); Deddf Awdurdod Darlledu Annibynnol 1973, adran 4(1)(b); Deddf Darlledu 1990, adran 6(1)(b).
[38] *New news, old news: An ITC and BSC Research Publication*, Ian Hargreaves a James Thomas, Hydref 2002, tudalen 4.
[39] Y Bil Cyfathrebiadau drafft – Y Polisi, Yr Adran Masnach a Diwydiant, Mai 2002, tudalen 46.
[40] Gweler: adran 319(2)(g) ac adran 321(2) o'r Ddeddf.
[41] Mae Adran 333 o'r Ddeddf yn dweud ei bod yn rhaid i drwyddedau ar gyfer rhai darlledwyr fynnu bod darllediadau am ddim yn cael eu cynnwys a bod rheolau Ofcom ar Ddarllediadau Etholiadol Pleidiau a Refferenda yn cael eu dilyn. Mae'r Rheolau hynny'n rheoleiddio darllediadau gwleidyddol y pleidiau (a gynigir i bleidiau sy'n gymwys y tu allan i gyfnodau etholiadau); darllediadau etholiadol y pleidiau (a gynigir i bleidiau sy'n gymwys yn ystod cyfnodau etholiad); a darllediadau ymgyrchoedd y refferendwm (a gynigir i bob sefydliad refferendwm dynodedig cyn pob refferendwm).
[42] Papur Gwyn Cyfathrebiadau (Diogelu buddiannau dinasyddion, 6.6.1).

> "...un o gonglfeini darlledu yn y DU fu'r rhwymedigaeth ar bob darlledwr i gyflwyno newyddion gyda chywirdeb a didueddrwydd dyladwy. Mae rhwymedigaethau pwysig o ran didueddrwydd yn berthnasol i raglenni eraill hefyd. Mae'r Llywodraeth yn credu bod y rhwymedigaethau hyn wedi chwarae rhan bwysig o ran sicrhau bod gan y cyhoedd fynediad eang at wybodaeth ddiduedd a chywir am ein cymdeithas a'r cyfle i ddod ar draws amrywiaeth eang o leisiau a safbwyntiau. Maent yn sicrhau bod y cyfryngau darlledu yn darparu gwrthbwys i ffynonellau newyddion eraill, sy'n aml yn rhai pleidiol. Maent felly'n cyfrannu'n sylweddol at drafodaeth ddemocrataidd sy'n seiliedig ar wybodaeth briodol."

A1.22 Mae'r egwyddor benodol na ddylid defnyddio gwleidyddion mewn rolau penodol sy'n gysylltiedig â chyflwyno newyddion, oherwydd y gofyniad am ddidueddrwydd dyladwy, wedi bod yn nodwedd o reoleiddio darlledu ers blynyddoedd lawer. Roedd Canllawiau Rhaglenni 1977 yr Awdurdod Darlledu Annibynnol ("IBA") yn atal gwleidyddion rhag gweithredu fel darlledwyr newyddion ac, yn fwy cyffredinol, fel cyflwynwyr rhaglenni trafod neu faterion cyfoes, gan egluro:

> "...Yn ogystal â'r angen a nodir uchod i atal gwleidydd rhag cael mantais annheg drwy ymddangos ar y sgrin, mae angen cadw'r ymddangosiad o ddidueddrwydd dyladwy yn ogystal ag mewn gwirionedd. Dim ots pa mor amhleidiol fydd unigolyn o'r fath yn ymddwyn ar y sgrin, gallai fod yn anodd i wylwyr dderbyn bod rhaglen sy'n cael ei chyflwyno ganddynt ar fater sy'n destun dadlau gwleidyddol neu ddiwydiannol cyfoes, yn wirioneddol ddiduedd."[43]

A1.23 Roedd Llyfr Blwyddyn 1976 yr Awdurdod Darlledu Annibynnol yn egluro'r pryder sylfaenol ymhellach fel a ganlyn:

> "...Mae un anhawster penodol...yn codi gyda'r rhaglenni hynny lle mae gwleidyddion yn ymddangos yn rheolaidd, i bob pwrpas, mewn swyddogaeth anwleidyddol...Ond rhaid gofyn a all gwleidydd gweithredol sy'n hysbys mewn unrhyw rôl gael ei ystyried – yn realistig – fel rhywun anwleidyddol?...
>
> Y prif rwystr yw ymrwymiad pennaf yr awdurdodau darlledu i fod yn ddiduedd wrth gyflwyno rhaglenni newyddion a materion cyfoes. Mae hyn yn ei gwneud yn amhosibl bron i wleidyddion gweithredol (neu gefnogwyr gweithredol pleidiau) gael eu cyflogi mewn rolau lle byddent yn cyflwyno neu'n llywyddu dros raglenni newyddion neu faterion cyfoes."[44]

A1.24 Roedd Cod Rhaglenni'r Comisiwn Teledu Annibynnol ("ITC"), a gyhoeddwyd yn 2002, yn cynnwys y cyfyngiad canlynol ar wleidyddion yn cyflwyno newyddion mewn ffordd debyg i'r Rheol 5.3 bresennol:

> "Oherwydd yr angen i gadw didueddrwydd dyladwy, ni ddylai unrhyw wleidydd sy'n weithredol ar hyn o bryd ymddangos fel ddarlledwyr newyddion, cyfwelwyr na gohebwyr mewn unrhyw raglen newyddion, oni bai fod modd cyfiawnhau eu defnyddio'n glir, ac os felly dylid nodi teyrngarwch eu plaid yn glir."[45]

A1.25 Roedd Cod Rhaglenni a Chod Newyddion a Materion Cyfoes yr Awdurdod Radio, a gyhoeddwyd hefyd yn 2002, yn cynnwys gofyniad tebyg:

---

[43] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon yr Awdurdod Darlledu Annibynnol 1976-77, tudalen 114.
[44] Llyfr Blwyddyn yr Awdurdod Darlledu Annibynnol 1976, tudalennau 72-73.
[45] Cod Rhaglenni'r Comisiwn Teledu Annibynnol, Ionawr 2002, Adran 3.7.

"Caiff gwleidyddion gyflwyno rhaglenni, er dylid defnyddio gofal a disgresiwn. Ni ddylent gyflwyno bwletinau newyddion na rhaglenni newyddion hirach."[46]

A1.26 Pwysleisiodd Ofcom fod y gofynion hyn yn parhau yn ein hymgynghoriad ar y Cod yn 2004. Fe wnaethom ddweud bod y rheol ddrafft a ddaeth i fod yn Rheol 5.3 "yn egluro sut, yn ymarferol, mae'n rhaid i 'ddidueddrwydd dyladwy' fod yn berthnasol i wleidyddion sy'n cyflwyno newyddion a chydnabod yr angen am dryloywder. Ar hyn o bryd mae darlledwyr yn glynu wrth y rheol hon".[47]

## Rhyddid mynegiant

A1.27 Fel awdurdod cyhoeddus, rhaid i Ofcom weithredu'n unol â'i ddyletswyddau cyfraith gyhoeddus i weithredu'n gyfreithlon, yn rhesymol ac yn deg, ac mae'n anghyfreithlon i Ofcom weithredu mewn ffordd sy'n anghydnaws â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.[48] Yr hyn sy'n arbennig o berthnasol i swyddogaethau Ofcom o dan adran 319 o'r Ddeddf yw'r hawl i ryddid mynegiant (Erthygl 10 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol).

A1.28 Mae rhyddid mynegiant yn un o sylfeini hanfodol cymdeithas ddemocrataidd. Mae'n cwmpasu hawl y darlledwr i ryddid mynegiant yn ogystal â hawl y gynulleidfa i dderbyn deunydd creadigol, gwybodaeth a syniadau heb ymyriad.[49] Mae'n berthnasol i gynnwys gwybodaeth a hefyd i'r cyfrwng darlledu neu'r modd derbyn.[50]

A1.29 Mae Erthygl 10(2) o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn datgan y gellir cyfyngu'r hawl hon er budd diogelwch gwladol, uniondeb tiriogaethol neu ddiogelwch y cyhoedd, er mwyn atal anhrefn neu droseddu, er mwyn diogelu iechyd neu foesau, er mwyn diogelu enw da neu hawliau pobl eraill, er mwyn atal datgelu gwybodaeth a gafwyd yn gyfrinachol, neu er mwyn cynnal awdurdod a didueddrwydd y farnwriaeth.

A1.30 Rhaid i unrhyw ymyriad â'r hawl i ryddid mynegiant gael ei ragnodi gan y gyfraith, dilyn nod dilys, a bod yn angenrheidiol mewn cymdeithas ddemocrataidd (h.y. sy'n gymesur â'r nod cyfreithlon a ddilynir ac sy'n cyfateb i angen cymdeithasol dybryd).

A1.31 Mae penderfyniadau ar lefel ddomestig a gerbron Llys Hawliau Dynol Ewrop yn dangos yn glir bod y cyfyngiadau ar ryddid mynegiant yn debygol o fod yn arbennig o gyfyngedig mewn dau faes sy'n gorgyffwrdd, sef araith wleidyddol ac ar faterion sydd o ddiddordeb i'r cyhoedd. Yn unol â hynny, bydd lefel uchel o ddiogelwch rhyddid mynegiant yn cael ei rhoi, fel arfer, ac nid oes gan yr awdurdodau llawer o ddisgresiwn.

A1.32 Mae wedi hen ennill ei blwyf y gallai rhyddid mynegiant darlledwyr trwyddedig gael ei gyfyngu'n gyfreithlon pan fydd angen mesurau o'r fath i gyflawni'r amcan cadarnhaol o gynnal trafodaethau democrataidd teg a chyfartal ar lwyfannau cyfryngau dylanwadol er budd cymdeithas yn gyffredinol.[51]

[46] Cod Rhaglenni a Chod Newyddion a Materion Cyfoes yr Awdurdod Radio, Ionawr 2002, Adran 2.1.
[47] Ymgynghoriad ar God Darlledu arfaethedig Ofcom, 14 Gorffennaf 2004, tudalen 44.
[48] Adran 6, Deddf Hawliau Dynol 1998.
[49] *Lingens v Awstria* (1986) 8 EHRR 407.
[50] *Autronic v Y Swistir* (1990) 12 EHRR 485.
[51] *Animal Defenders v Y Deyrnas Unedig* [2013] EMLR 28 a *R (On The Application of Animal Defenders International) v Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon* [2008] 1 AC 1312 ac *Animal Defenders v Y Deyrnas Unedig* [2013] EMLR 28.

A1.33 Mae Adran 319 o'r Ddeddf yn mynnu bod "newyddion yn cael ei gyflwyno gyda didueddrwydd dyladwy". Wrth basio'r Ddeddf, nododd y Senedd mewn deddfwriaeth y cyfyngiadau a ragnodir gan y gyfraith ac mae'n credu sy'n angenrheidiol yn ein cymdeithas ddemocrataidd. Diogelu hawliau pobl eraill yw'r nod.

A1.34 Mae'r fframwaith statudol a osodir gan y Senedd yn neilltuo maes barn yn benodol, i'w arfer gan Ofcom, o ran pa ofynion rheoleiddio sydd orau i sicrhau'r amcanion deddfwriaethol ac, maes o law, sut y bydd y gofynion hyn yn cael eu defnyddio gyda ffeithiau pob achos.

A1.35 Wrth osod, adolygu a gorfodi safonau mewn perthynas â didueddrwydd dyladwy, rhaid i Ofcom ystyried hawliau Erthygl 10 darlledwyr a chynulleidfaoedd yn ofalus. Rhaid i Ofcom hefyd roi sylw dyledus i'r materion a bennir yn adran 149(1) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ac Adran 75 o Ddeddf Gogledd Iwerddon 1998. Edrychwch ar Atodiad A4 i gael rhagor o fanylion.

# A2. Testun diwygiedig arfaethedig Adran Pump

A2.1 Isod ceir fersiwn anodedig o destun diwygiedig Adran Pump o'r Cod, gan ddangos y diwygiad arfaethedig i Reol 5.3 mewn cyd-destun.

## Adran Pump: Didueddrwydd Dyladwy a Chywirdeb Dyladwy a Rhoi Amlygrwydd Gormodol i Farnau a Safbwyntiau

(Ymhlith yr eitemau deddfwriaeth perthnasol y mae, yn benodol, adrannau 319(2)(c) a (d), 319(8) ac adran 320 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003, Erthygl 7 y Confensiwn Ewropeaidd ar Deledu Trawsffiniol (ar gyfer gwasanaethau ECTT yn unig) Siarter a Chytundeb y BBC ac Erthygl 10 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.)

### Egwyddorion

**Sicrhau y bydd newyddion, ar ba bynnag ffurf, yn cael ei adrodd gyda chywirdeb dyladwy a'i cyflwyno gyda didueddrwydd dyladwy.**

**Sicrhau y cydymffurfir â gofynion arbennig y Ddeddf o ran didueddrwydd.**

### Rheolau

**Ystyr "didueddrwydd dyladwy":**

Mae "dyladwy" yn oleddfiad pwysig i'r cysyniad o ddidueddrwydd. Mae didueddrwydd ei hun yn golygu peidio â ffafrio un ochr yn fwy nag un arall. Mae "dyladwy" yn golygu digonol neu briodol i destun a natur y rhaglen. Felly nid yw "didueddrwydd dyladwy" yn golygu bod rhaid rhoi'r un amser ar gyfer pob barn neu fod rhaid cynrychioli pob dadl a phob agwedd ar bob dadl. Gall yr ymagwedd at ddidueddrwydd dyladwy amrywio yn ôl natur y testun, y math o raglen a sianel, disgwyliad tebygol y gynulleidfa o ran cynnwys, a'r graddau y dangosir natur y cynnwys a'r ymagwedd i'r gynulleidfa. Mae cyd-destun, fel y mae wedi'i ddiffinio yn Adran Dau:Niwed a Thramgwydd y Cod, yn bwysig.

**Didueddrwydd dyladwy a chywirdeb dyladwy mewn newyddion**

5.1 Rhaid adrodd newyddion, ar ba bynnag ffurf, gyda chywirdeb dyladwy a'i gyflwyno gyda didueddrwydd dyladwy.

5.2 Fel arfer dylid cydnabod camgymeriadau o bwys mewn newyddion a'u cywiro ar yr awyr yn gyflym (neu, yn achos gwasanaethau rhaglenni ar-alw cyhoeddus y BBC yn y DU, eu cywiro yn gyflym). Dylid amserlennu cywiriadau'n briodol (neu, yn achos gwasanaethau rhaglenni ar-alw cyhoeddus y BBC yn y DU, dylid eu gwneud yn amlwg i wylwyr mewn ffordd briodol).

5.3 Ni cheir defnyddio unrhyw wleidydd fel darllenydd newyddion, cyfwelydd newyddion neu ohebydd newyddion mewn unrhyw fath o raglen ~~newyddion~~ oni bai fod cyfiawnhad golygyddol dros hynny mewn achosion eithriadol. Mewn achos o'r fath, rhaid egluro teyrngarwch gwleidyddol y person hwnnw i'r gynulleidfa.

**Gofynion arbennig o ran didueddrwydd: rhaglenni newyddion a rhaglenni eraill**

*Materion gwleidyddol neu ddiwydiannol sy'n destun dadlau a materion sy'n ymwneud â pholisi cyhoeddus cyfredol*

**Ystyr "materion gwleidyddol neu ddiwydiannol sy'n destun dadlau a materion sy'n ymwneud â pholisi cyhoeddus cyfredol":**

Mae materion gwleidyddol neu ddiwydiannol sy'n destun dadlau'n faterion gwleidyddol neu ddiwydiannol y mae gwleidyddion, diwydiant a/neu'r cyfryngau'n dadlau yn eu cylch. Nid yw materion sy'n ymwneud â pholisi cyhoeddus cyfredol yn destun dadlau o reidrwydd ond maent yn ymwneud â pholisi sy'n destun trafod neu sydd wedi'i bennu eisoes gan lywodraeth genedlaethol, ranbarthol neu leol neu gan gyrff sydd wedi'u hawdurdodi gan y cyrff cyhoeddus hynny i wneud polisi ar eu rhan, er enghraifft, cyrff anllywodraethol, sefydliadau rhyngwladol perthnasol, etc.

*Gwahardd barnau neu safbwyntiau*

(Mae Rheol 5.4 yn berthnasol i wasanaethau teledu a radio (heblaw gwasanaethau cyfyngedig) ac i Wasanaethau Rhaglenni ar-alw Cyhoeddus y BBC.)

5.4 Rhaid i raglenni yn y gwasanaethau (sydd wedi'u rhestru uchod) wahardd pob mynegiant o farnau a safbwyntiau gan y sawl sy'n darparu'r gwasanaeth am faterion gwleidyddol a diwydiannol sy'n destun dadlau a materion sy'n ymwneud â pholisi cyhoeddus cyfredol (oni bai fod y person hwnnw'n siarad mewn fforwm deddfwriaethol neu mewn llys barn). Mae barnau a safbwyntiau sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau rhaglenni wedi'u heithrio rhag y gofyniad hwn hefyd.

*Cadw didueddrwydd dyladwy*

(Mae Rheolau 5.5 i 5.12 yn berthnasol i wasanaethau rhaglenni teledu, gwasanaethau teletestun, gwasanaethau rhaglenni radio cenedlaethol a sain digidol cenedlaethol, holl wasanaethau radio'r BBC a gwasanaethau rhaglenni ar-alw cyhoeddus y BBC yn y DU.)

5.5 Rhaid i unrhyw un sy'n darparu gwasanaeth (sydd wedi'i restru uchod) gadw didueddrwydd dyladwy ar faterion gwleidyddol a diwydiannol sy'n destun dadlau a materion sy'n ymwneud â pholisi cyhoeddus cyfredol. Gellir sicrhau hyn o fewn rhaglen neu drwy gyfres o raglenni wedi'u cymryd gyda'i gilydd.

**Ystyr "cyfres o raglenni wedi'u cymryd gyda'i gilydd":**

Mae hyn yn golygu mwy nag un rhaglen yn yr un gwasanaeth, sydd â chysylltiad golygyddol, sy'n ymdrin â'r un materion neu rai cysylltiedig o fewn cyfnod priodol ac sydd wedi'i hanelu at gynulleidfa debyg. Er enghraifft, gallai cyfres gynnwys llinyn, neu ddwy raglen (fel drama a thrafodaeth am y ddrama) neu 'glwstwr' neu 'dymor' o raglenni ar yr un testun.

5.6 Fel arfer dylid egluro i'r gynulleidfa ar yr awyr fod rhaglenni sydd â chysylltiad golygyddol sy'n ymdrin â'r un testun yn cael eu darlledu (fel rhan o gyfres lle mae'r darlledwr yn bwriadu sicrhau didueddrwydd dyladwy)[52].

5.7 Rhaid peidio â chamliwio safbwyntiau a ffeithiau. Hefyd rhaid cyflwyno safbwyntiau gyda phwys dyladwy dros gyfnodau priodol.

5.8 Rhaid egluro i'r gynulleidfa unrhyw fuddiant personol sydd gan ohebydd neu gyflwynydd a fyddai'n codi amheuaeth ynghylch didueddrwydd dyladwy'r rhaglen.

---

[52] Ar gyfer Gwasanaethau Rhaglenni ar-alw Cyhoeddus y BBC yn y DU dylai hyn gael ei wneud yn amlwg i'r gynulleidfa drwy ddefnyddio arwyddion priodol i'r gynulleidfa.

5.9 Mae cyflwynwyr a gohebwyr (heblaw cyflwynwyr newyddion a gohebwyr mewn rhaglenni newyddion), cyflwynwyr rhaglenni neu eitemau "barn bersonol" neu "awdurol", a chadeiryddion rhaglenni trafod yn cael mynegi eu barn eu hunain am faterion gwleidyddol neu ddiwydiannol sy'n destun trafod neu faterion sy'n ymwneud â pholisi cyhoeddus cyfredol. Fodd bynnag, rhaid tynnu sylw digonol at safbwyntiau eraill un ai yn y rhaglen, neu mewn cyfres o raglenni wedi'u cymryd gyda'i gilydd. Yn ogystal â hynny, rhaid i gyflwynwyr beidio â manteisio ar ymddangosiadau rheolaidd i hyrwyddo eu barn mewn modd sy'n groes i'r gofyniad am ddidueddrwydd dyladwy. Yn achos rhaglenni ffonio i mewn i siarad â chyflwynwyr, rhaid cymell barnau gwahanol a pheidio â'u heithrio.

5.10 Rhaid hysbysu'r gynulleidfa'n glir ar y dechrau os yw rhaglen neu eitem yn un awdurol neu'n cyflwyno barn bersonol. Mae hyn yn ofyniad sylfaenol ac mae'n bosibl na fydd yn ddigonol ym mhob amgylchiad. (Mae cyflwynwyr 'personoliaeth' ar raglenni ffonio i mewn ar y radio wedi'u heithrio rhag y ddarpariaeth hon oni bai fod eu statws o ran datgan barn bersonol yn aneglur.)

**Ystyr "barn bersonol" ac "awdurol":**

Mae rhaglenni "barn bersonol" yn rhaglenni sy'n cyflwyno barn neu safbwynt penodol. Mae rhaglenni barn bersonol yn gallu amrywio o fynegiad plaen o farn bleidiol iawn, er enghraifft gan rywun sy'n aelod grŵp sy'n ymgyrchu ar y mater, i farn "awdurol" ystyriol gan newyddiadurwr, sylwebydd neu academydd, sydd ag arbenigedd proffesiynol neu arbenigaeth mewn maes sy'n ei alluogi i fynegi barn nad yw o reidrwydd yn un sydd yn y brif ffrwd.

### *Materion gwleidyddol neu ddiwydiannol sy'n destun dadlau helaeth a materion pwysig sy'n ymwneud â pholisi cyhoeddus cyfredol*

5.11 Yn ogystal â'r rheolau uchod, rhaid i'r sawl sy'n darparu gwasanaeth (sydd wedi'i restru uchod) gadw didueddrwydd dyladwy ar faterion gwleidyddol a diwydiannol sy'n destun dadlau helaeth a materion pwysig sy'n ymwneud â pholisi cyhoeddus cyfredol ym mhob rhaglen neu mewn rhaglenni sy'n amserol ac wedi'u cysylltu'n glir.

**Ystyr "materion gwleidyddol neu ddiwydiannol sy'n destun dadlau helaeth a materion pwysig sy'n ymwneud â pholisi cyhoeddus cyfredol":**

Bydd y rhain yn amrywio yn ôl digwyddiadau ond fel arfer maent yn faterion gwleidyddol neu ddiwydiannol sy'n destun dadlau neu'n faterion sy'n ymwneud â pholisi cyhoeddus cyfredol sydd o bwys cenedlaethol, ac yn aml o bwys rhyngwladol, neu'n rhai o bwysigrwydd tebyg o fewn ardal ddarlledu lai.

5.12 Wrth ymdrin â materion gwleidyddol a diwydiannol sy'n destun dadlau helaeth a materion pwysig sy'n ymwneud â pholisi cyhoeddus cyfredol, rhaid cynnwys ystod briodol eang o safbwyntiau pwysig a rhoi pwys dyladwy iddynt ym mhob rhaglen neu mewn rhaglenni sy'n amserol ac wedi'u cysylltu'n glir. Rhaid peidio â chamliwio safbwyntiau a ffeithiau.

### *Atal amlygrwydd gormodol i farnau a safbwyntiau ar faterion gwleidyddol neu ddiwydiannol sy'n destun dadlau a materion sy'n ymwneud â pholisi cyhoeddus cyfredol*

(Mae Rheol 5.13 yn berthnasol i wasanaethau radio lleol (yn cynnwys gwasanaethau radio cymunedol), gwasanaethau rhaglenni sain digidol lleol (yn cynnwys gwasanaethau rhaglenni sain digidol cymunedol) a gwasanaethau cynnwys trwyddedadwy radio). Er mwyn osgoi unrhyw ddryswch, nid yw'n berthnasol i unrhyw rai o wasanaethau'r BBC.)

5.13 Ni ddylai darlledwyr roi amlygrwydd gormodol i farnau a safbwyntiau pobl neu gyrff penodol ar faterion gwleidyddol neu ddiwydiannol sy'n destun trafod a materion sy'n ymwneud â

pholisi cyhoeddus cyfredol yn yr holl raglenni sydd wedi'u cynnwys mewn unrhyw wasanaeth (sydd wedi'i restru uchod) o'u cymryd gyda'i gilydd.

**Ystyr "amlygrwydd gormodol i farnau a safbwyntiau":**

Mae amlygrwydd gormodol yn ddiffyg cydbwysedd sylweddol yn y safbwyntiau a fynegir wrth roi sylw i faterion gwleidyddol neu ddiwydiannol sy'n destun dadlau neu faterion sy'n ymwneud â pholisi cyhoeddus cyfredol.

**Ystyr "rhaglenni sydd wedi'u cynnwys mewn unrhyw wasanaeth…o'u cymryd gyda'i gilydd":**

Ystyr rhaglenni sydd wedi'u cynnwys mewn unrhyw wasanaeth o'u cymryd gyda'i gilydd yw'r holl raglenni ar wasanaeth sy'n ymdrin â'r un materion neu rai cysylltiedig o fewn cyfnod priodol.

# A3. Canllawiau diwygiedig arfaethedig ar Reol 5.3 i'w cynnwys yn y Canllawiau: Adran Pump

A3.1 Mae fersiwn anodedig o destun diwygiedig y canllawiau sy'n cyd-fynd â Rheol 5.3, sy'n dangos y diwygiadau arfaethedig i'r adran hon o Ganllawiau Adran Pump y Cod, wedi'i nodi'n llawn isod.

## Rheol 5.3

Ni cheir defnyddio unrhyw wleidydd fel darllenydd newyddion, cyfwelydd newyddion neu ohebydd newyddion mewn unrhyw fath o raglen ~~newyddion~~ oni bai fod cyfiawnhad golygyddol dros hynny mewn achosion eithriadol. Mewn achos o'r fath, rhaid egluro teyrngarwch gwleidyddol y person hwnnw i'r gynulleidfa.

## Canllawiau

~~1.1 Mae Rheol 5.3 yn atal gwleidyddion rhag bod yn ddarllenwyr newyddion, cyfwelwyr neu ohebwyr **mewn rhaglenni newyddion** oni bai fod cyfiawnhad golygyddol dros hynny mewn achosion eithriadol. Mewn achos o'r fath, rhaid egluro teyrngarwch gwleidyddol y person i'r gynulleidfa".~~

~~1.2 Mae rheol 5.3 yn gyfyngiad penodol ar wleidyddion mewn **rhaglenni newyddion.** Fodd bynnag, os bydd gwleidydd yn gweithredu fel darllenydd newyddion, cyfwelydd neu ohebydd mewn unrhyw fath arall o raglen, gan gynnwys rhaglenni materion cyfoes, ni fydd yn berthnasol a bydd Rheol 5.1 yn berthnasol yn lle hynny. Mewn amgylchiadau o'r fath, dylai darlledwyr ystyried yn ofalus a yw'r cynnwys hwnnw'n cydymffurfio â Rheol 5.1 o'r Cod. A fyddai Rheol 5.1 yn cael ei thorri mewn amgylchiadau o'r fath yn gofyn am ddadansoddiad cyd-destunol llawn, ac os felly gallai'r ffaith bod y newyddion wedi cael ei gyflwyno gan wleidydd fod yn ffactor hynod berthnasol yn dibynnu ar y cyd-destun, ochr yn ochr â natur a chynnwys y newyddion a'r rhaglen. Dylai darlledwyr nodi nad oes prawf cyfiawnhad eithriadol yn Rheol 5.1.~~

1.3 Gallai defnyddio gwleidyddion fel gohebwyr newyddion neu gyflwynwyr mewn unrhyw fath o raglen ~~newyddion~~ fod yn broblem yng nghyd-destun y gofyniad am ddidueddrwydd dyladwy.

1.4 At ddibenion Rheol 5.3, bod 'gwleidydd' yn debygol o gynnwys cynrychiolydd etholedig e.e. AS neu gynghorydd, ymgeisydd, rhywun sy'n sefyll i fod yn ymgeisydd, neu ddarpar ymgeisydd (hynny yw ymgeisydd sy'n cael ei ethol ac sy'n gwybod ei fod wedi cael ei ddewis i gynrychioli plaid mewn etholiad); cyflogai i blaid wleidyddol; neu ymgyrchydd.

1.5 Y rhesymeg dros gyfyngu'r Cod ar ddefnyddio gwleidyddion fel darllenydd newyddion, cyfwelydd newyddion neu ohebydd newyddion mewn unrhyw fath o raglen ~~newyddion~~ yw bod gwleidyddion yn cynrychioli plaid wleidyddol benodol gyda'i hideoleg, agweddau a safbwyntiau polisi gwleidyddol ei hun. Felly, mae cynulleidfaoedd yn debygol o ddeall bod

gwleidyddion yn bobl sydd â diddordeb cynhenid mewn hyrwyddo safbwynt pleidiol ar faterion cyfoes[53].

1.6 Wrth osod a defnyddio'r Cod, mae'n bwysig bod Ofcom yn cynnal ymddiriedaeth cynulleidfaoedd mewn newyddion sy'n cael ei ddarlledu a disgwyliadau cynulleidfaoedd y bydd yn cael ei gyflwyno gyda didueddrwydd dyladwy. Felly, mae Rheol 5.3 o'r Cod yn atgyfnerthu ac yn hyrwyddo safon gyffredinol didueddrwydd dyladwy ar gyfer newyddion sy'n cael ei ddarlledu, sy'n ofynnol o dan Reol 5.1.

1.7 Mae gwleidyddion sy'n cael eu defnyddio i gyflwyno newyddion mewn perygl o danseilio uniondeb a hygrededd newyddion sy'n cael ei ddarlledu sy'n cael ei reoleiddio oherwydd eu rôl bleidiol mewn cymdeithas. Mae'n debyg y bydd cynulleidfaoedd yn edrych ar newyddion a gyflwynir ganddynt yng ngoleuni'r rhagfarn ymddangosiadol honno. Am y rheswm hwnnw, o dan Reol 5.3 ni chaniateir i wleidydd gyflwyno newyddion, ym mha bynnag gyd-destun rhaglennu y mae'n ymddangos, heb gyfiawnhad golygyddol eithriadol.

1.8 ~~Y tu hwnt i raglenni newyddion~~ Er na cheir defnyddio gwleidydd fel darllenydd newyddion, cyfwelydd newyddion na gohebydd newyddion mewn unrhyw fath o raglen, nid oes unrhyw reol gan Ofcom sy'n atal gwleidydd rhag cyflwyno neu ymddangos ar raglen deledu neu radio – ar yr amod nad yw'n sefyll fel ymgeisydd mewn etholiad sy'n cael ei gynnal, neu sydd ar fin cael ei gynnal, neu'n gynrychiolydd i gyfranogwr a ganiateir, fel y dynodir gan y Comisiwn Etholiadol, mewn refferendwm yn y DU[54], a bod y rhaglen yn cydymffurfio fel arall â'r Cod. Mae hyn yn golygu bod gwleidyddion yn cael cyflwyno rhaglenni materion cyfoes fel rhaglenni ffonio i gynulleidfaoedd a rhaglenni trafod.

~~1.9 Rhaid i raglenni newyddion a rhaglenni materion cyfoes ill dau gydymffurfio â'r holl reolau perthnasol yn y Cod, gan gynnwys yr angen i gadw didueddrwydd dyladwy ar faterion (yn ogystal â materion pwysig) sy'n destun dadlau gwleidyddol neu ddiwydiannol neu bolisi cyhoeddus cyfredol[55]. Weithiau gall y rhaglenni fod ar sianeli sydd hefyd yn darlledu newyddion. Fel y nodir ym mharagraff 1.9 o dan Reol 5.1, mae rhai ffactorau nodweddiadol a allai arwain Ofcom i ddosbarthu cynnwys fel rhaglen newyddion neu raglen materion cyfoes.~~

1.10 Os bydd trwyddedai'n dewis defnyddio gwleidydd fel cyflwynydd mewn rhaglen, yna rhaid i'r trwyddedai gymryd camau i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â gofynion Rheol 5.3, gan gofio amcan cyffredinol y safonau, sef bod newyddion ar ba ffurf bynnag yn cael ei gyflwyno gyda didueddrwydd dyladwy. Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, mae darlledwyr yn cadw'r rhyddid golygyddol i greu rhaglenni sy'n symud rhwng rhaglenni heb fod yn newyddion a chynnwys newyddion. Fodd bynnag, os bydd y trwyddedai'n dewis defnyddio gwleidydd fel cyflwynydd rhaglen o'r fath, bydd yn rhaid i'r trwyddedai gymryd camau fel nad yw'r gwleidydd yn gweithredu fel darllenydd newyddion, cyfwelydd newyddion na gohebydd newyddion yn y rhaglen honno. Gallai hyn gynnwys trosglwyddo i gyflwynydd arall i sicrhau nad yw'r gwleidydd yn cyflwyno eitem newyddion.

1.11 Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y gall fod amgylchiadau eithriadol sy'n golygu bod cyfiawnhad golygyddol i wleidydd gyflwyno'r newyddion. Bydd yr hyn a ystyrir yn

[53] Mewn penderfyniad blaenorol canfu Ofcom fod *"Y [Rheol 5.3] hon i sicrhau bod y newyddion yn cael ei gyflwyno, ac y gwelir ei fod yn cael ei gyflwyno, gyda didueddrwydd dyladwy"* – gweler *News*, London Greek Radio, Bwletin Darlledu Rhifyn 65 (ofcom.org.uk)
[54] Mae hyn wedi'i wahardd o dan Reol 6.6 o'r Cod.
[55] Fel sy'n ofynnol gan Reolau 5.5 a 5.11 o'r Cod.

amgylchiadau eithriadol o dan Reol 5.3 bob amser yn dibynnu ar amgylchiadau penodol achos. Fodd bynnag, yn gyffredinol, amgylchiadau eithriadol yw'r rhai sydd y tu hwnt i reolaeth y trwyddedai, na fyddai trwyddedai wedi gallu eu rhagweld a/neu lle na fyddai gan y trwyddedai unrhyw ddewis arall heblaw am wleidydd yn cyflwyno'r newyddion. Byddem yn disgwyl i sefyllfaoedd o'r fath fod yn brin. Yn yr achosion hyn, rhaid egluro teyrngarwch gwleidyddol y person hwnnw i'r gynulleidfa.

Ymchwil cynulleidfaoedd berthnasol gan Ofcom: Agweddau cynulleidfaoedd at wleidyddion yn cyflwyno rhaglenni ar deledu a radio.

# A4. Asesiadau effaith

A4.1 Mae Ofcom yn cydnabod bod y penderfyniadau rydym ni'n eu gwneud yn gallu sicrhau gwerth sylweddol i ddinasyddion ac i ddefnyddwyr, ond eu bod hefyd yn gallu arwain at gostau sylweddol i'n rhanddeiliaid. Rydym yn defnyddio asesiadau effaith i'n helpu i ddeall ac asesu effaith bosibl ein penderfyniadau polisi cyn i ni wneud y penderfyniadau hynny.

A4.2 Mae asesiad effaith yn broses wedi'i strwythuro ar gyfer ystyried yr effeithiau posibl hyn, gan gynnwys:

- yr effeithiau cyffredinol ar ddinasyddion a defnyddwyr;
- yr effeithiau ar y diwydiannau rydym yn eu rheoleiddio; ac
- yr effeithiau ar grwpiau penodol o bobl, gan gynnwys pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig a nodir mewn deddfwriaeth cydraddoldeb.

A4.3 Mae Adran 7 o'r Ddeddf yn mynnu bod Ofcom yn cynnal asesiadau effaith mewn achosion lle byddai ein canlyniadau'n debygol o gael effaith arwyddocaol ar fusnesau neu'r cyhoedd, neu lle mae newid mawr yng ngweithgareddau Ofcom. Fel mater o bolisi, mae Ofcom wedi ymrwymo i gynnal asesiadau o'r effaith ar gyfer y rhan fwyaf o'n penderfyniadau polisi. Fel y nodir yn adran 7(5) o'r Ddeddf, mae gan Ofcom ddisgresiwn o ran sylwedd a ffurf asesiad effaith, a bydd hyn yn dibynnu ar y cynigion a/neu'r penderfyniadau penodol sy'n cael eu gwneud.

A4.4 Mae ein hasesiad dros dro o effaith bosibl y diwygiadau i Reol 5.3 y Cod a'r Canllawiau cysylltiedig a gynigir yn yr ymgynghoriad hwn wedi'i nodi isod.

## Asesiad effaith cyffredinol

A4.5 Mae Ofcom o'r farn bod effaith gyffredinol y diwygiadau arfaethedig i Reol 5.3 y Cod a'r Canllawiau cysylltiedig ar ddinasyddion a defnyddwyr yn debygol o fod yn gadarnhaol. Wrth egluro cwmpas defnyddio Rheol 5.3, er mwyn atal gwleidyddion rhag cyflwyno newyddion mewn unrhyw fath o raglen, mae Ofcom yn ceisio sicrhau bod cynulleidfaoedd yn gallu cael gafael ar newyddion diduedd priodol ar deledu a radio, ym mha bynnag gyd-destun y mae'n ymddangos. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod dinasyddion a defnyddwyr yn cael gwybodaeth dda am ddigwyddiadau cyfredol ac yn dod ar draws amrywiaeth o safbwyntiau ar faterion amserol, sy'n bwysig mewn cymdeithas ddemocrataidd.

A4.6 Yn yr un modd, mae Ofcom o'r farn y bydd darlledwyr sy'n cael eu rheoleiddio yn elwa'n gyffredinol o ragor o eglurder am gwmpas Rheol 5.3 y Cod. Mae hyn oherwydd ei bod yn haws ac yn fwy effeithlon i ddarlledwyr sicrhau bod eu rhaglenni'n cydymffurfio â'r gofynion rheoleiddio perthnasol yng nghyd-destun trefn reoleiddio gyson a thryloyw, lle mae'r holl ofynion rheoleiddio hynny, gan gynnwys hyd a lled eu cais, wedi'u nodi'n glir ac yn bendant mewn cod (neu godau).

A4.7 Fel y nodir ym mharagraff 2.5 uchod, mae cynulleidfaoedd a chymdeithas yn gyffredinol yn elwa o'r ffaith bod yn rhaid i newyddion sy'n cael ei ddarlledu yn y DU gyrraedd safonau Ofcom ar ddidueddrwydd dyladwy, ac mae sector darlledu'r DU yn ei gyfanrwydd yn elwa o reoleiddio didueddrwydd dyladwy o ran meithrin ymddiriedaeth. Mae'r diwygiadau arfaethedig i Reol 5.3 y Cod a'r Canllawiau cysylltiedig yn rhan o reoleiddio didueddrwydd dyladwy ac felly byddant yn cyfrannu at yr effeithiau cadarnhaol hyn.

A4.8 Rydym yn cydnabod y bydd ein cynigion yn effeithio'n benodol ar y gwasanaethau teledu a radio hynny sy'n darparu cynnwys newyddion a materion cyfoes di-dor ac yn defnyddio gwleidyddion fel cyflwynwyr rhaglenni nad ydynt yn rhaglenni newyddion. Fodd bynnag, nid ydym yn credu y bydd hyn yn effeithio'n ormodol ar y darlledwyr hyn, sydd ar hyn o bryd yn cynrychioli cyfran fach o gyfanswm y gwasanaethau sy'n cael eu trwyddedu gan Ofcom. Er bod y diwygiad arfaethedig i Reol 5.3 yn ehangu cwmpas y rheol bresennol, yn ein barn ni mae'n estyniad cyfyngedig i wasanaethu'r un amcan sylfaenol. O dan y cynnig hwn, bydd gwleidyddion yn dal i gael cyflwyno rhaglenni nad ydynt yn rhaglenni newyddion, ar yr amod nad ydynt yn cael eu defnyddio fel darllenydd newyddion, cyfwelydd newyddion na gohebydd newyddion yn y rhaglenni hynny, ac ar yr amod bod y cynnwys fel arall yn cydymffurfio â'r Cod. Byddai'r diwygiadau arfaethedig i Reol 5.3 hefyd yn cadw'r gallu i wleidyddion gyflwyno newyddion lle mae cyfiawnhad golygyddol eithriadol.

## Rhyddid mynegiant

A4.9 Mae Ofcom wedi rhoi ystyriaeth benodol i effaith y diwygiadau arfaethedig i Reol 5.3 a'r Canllawiau cysylltiedig ar hawliau Erthygl 10 darlledwyr a chynulleidfaoedd. Rydym yn cydnabod bod y cynigion hyn yn gyfystyr ag ymyrryd â hawliau'r bobl hyn i ryddid mynegiant.

A4.10 Fodd bynnag, rydym o'r farn bod yr ymyriad yn gyfyngedig, ac yn benodol, bod ein diwygiad arfaethedig i Reol 5.3 yn bodloni gofynion Erthygl 10(2) o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol fel rhai sydd wedi'u rhagnodi gan y gyfraith, wrth fynd ar drywydd nod dilys a'i fod yn angenrheidiol ac yn gymesur. Y Ddeddf a'r Cod fel y nodir uchod (gweler Atodiad A1) yw'r gyfraith berthnasol at ddibenion Erthygl 10(2). Y nod dilys a ddilynir gan y Ddeddf a'r Cod yw diogelu hawliau pobl eraill, yn enwedig drwy geisio cynnal trafodaeth ddemocrataidd deg a chyfartal ar lwyfannau cyfryngau dylanwadol er budd cymdeithas yn gyffredinol, diogelu cynulleidfaoedd rhag darlledu newyddion pleidiol niweidiol drwy sicrhau bod newyddion diduedd a chywir ar gael, a sicrhau bod amrywiaeth o safbwyntiau'n cyrraedd gwylwyr a allai wedyn gymryd rhan ar sail gwybodaeth mewn prosesau democrataidd.

A4.11 Wrth ystyried cymesuredd ein cynigion, ac fel y cyfeirir ato uchod, rydym yn cydnabod bod y diwygiad arfaethedig yn ehangu cwmpas Rheol 5.3 o newyddion a gyflwynir gan wleidyddion mewn “rhaglenni newyddion” i newyddion a gyflwynir gan wleidyddion mewn “unrhyw fath o raglen”. Fodd bynnag, rydym o'r farn bod hyn yn ehangu rhywfaint ar y rheol bresennol ac yn angenrheidiol i roi eglurder ac i weithredu'r rhesymeg polisi sy'n sail i hyn a'r rheolau eraill yn Adran Pump o'r Cod.

A4.12 Yn benodol, rydym wedi ystyried pwysigrwydd cynnal ymddiriedaeth cynulleidfaoedd a hyder y cyhoedd yn nhrefn darlledu'r DU a dyletswydd Ofcom i gynnal safonau sy'n diogelu cynulleidfaoedd rhag niwed. Mae'r rheolau didueddrwydd dyladwy yn benodol yn gwarchod rhag y risg y byddai dadl ddemocrataidd yn cael ei gwyrdroi petai rhaglenni pleidiol yn cael eu darlledu ar wasanaethau trwyddedig. Fel yr eglurir uchod, rhoddir amddiffyniadau ychwanegol i newyddion oherwydd ei bwysigrwydd sylfaenol mewn democratiaeth. Yn eu hanfod mae gan wleidyddion rôl bleidiol mewn cymdeithas ac mae cynnwys newyddion a gyflwynir ganddynt yn debygol o gael ei weld gan gynulleidfaoedd yng ngoleuni'r duedd dybiedig honno. Yn ein barn ni, mae risg i ddefnyddio gwleidyddion i gyflwyno'r newyddion – ym mha bynnag gyd-destun rhaglennu – danseilio uniondeb a hygrededd newyddion sy'n cael ei ddarlledu sy'n cael ei reoleiddio.

A4.13 Nid ydym yn ystyried bod y sefyllfa bresennol, na mesur arall llai ymwthiol, yn cyflawni'r amcanion polisi. Y rheswm am hyn yw bod geiriad presennol Rheol 5.3 yn atal gwleidyddion rhag cyflwyno newyddion mewn rhaglenni newyddion ond yn caniatáu i wleidyddion gyflwyno cynnwys newyddion mewn rhaglenni sy'n cael eu categoreiddio fel rhaglenni nad ydynt yn rhaglenni newyddion. Rydym yn ystyried bod hyn yn arwain at ganlyniadau mympwyol. Yn ein barn ni, ein gwelliannau arfaethedig yw'r unig ffordd o atal gwleidyddion rhag cyflwyno newyddion yn gyffredinol, h.y. newyddion mewn unrhyw fath o raglen. Rydym hefyd yn nodi y bydd yr eithriad yn Rheol 5.3 yn parhau, bod gwleidyddion yn cael cyflwyno'r newyddion mewn amgylchiadau eithriadol os oes cyfiawnhad golygyddol dros wneud hynny (ac yn yr achos hwnnw, rhaid egluro teyrngarwch gwleidyddol y person hwnnw i'r gynulleidfa); ac y bydd gwleidyddion yn parhau i allu cyflwyno rhaglenni nad ydynt yn rhaglenni newyddion, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd.

A4.14 Wrth ystyried rheidrwydd a chymesuredd ein diwygiadau arfaethedig i Reol 5.3 a'r Canllawiau cysylltiedig, roeddem hefyd wedi ystyried y bydd y rhain ond yn effeithio ar ddarlledwyr sy'n defnyddio gwleidyddion fel cyflwynwyr a chynulleidfaoedd y gwasanaethau hynny. O ystyried nad oedd gwleidyddion yn cael bod yn ddarllenydd newyddion, yn gyfwelydd nac yn ohebydd mewn rhaglenni newyddion, nid ydym yn credu y bydd y diwygiadau arfaethedig i atal gwleidyddion rhag ymgymryd â'r rolau hyn mewn mathau eraill o raglenni yn amharu'n ormodol ar ddisgresiwn golygyddol darlledwyr.

A4.15 Am yr holl resymau uchod, mae Ofcom yn dod i'r casgliad dros dro bod yr ymyriad i ryddid mynegiant o'n diwygiadau arfaethedig i Reol 5.3 a'r Canllawiau cysylltiedig yn gymesur ac wedi'i gyfiawnhau'n gyffredinol.

## Asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb

A4.16 Mae adran 149(1) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn gosod dyletswydd ar Ofcom, wrth gyflawni ei swyddogaethau, i roi sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac ymddygiad gwaharddedig arall sy'n gysylltiedig â'r nodweddion gwarchodedig canlynol: oed; anabledd; ailbennu rhywedd; priodas a phartneriaeth sifil; beichiogrwydd a mamolaeth; hil; crefydd neu gred; rhyw a chyfeiriadedd rhywiol. Mae adran 149(1) hefyd yn mynnu bod Ofcom yn rhoi sylw dyledus i'r angen i hybu cyfleoedd cyfartal a meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig penodol, a phobl nad ydynt yn gwneud hynny.

A4.17 Mae adran 75(1) o Ddeddf Gogledd Iwerddon 1998 yn gosod dyletswydd ar wahân ar Ofcom, wrth gyflawni ei swyddogaethau mewn cysylltiad â Gogledd Iwerddon, i roi sylw dyledus i'r angen i hybu cyfleoedd cyfartal rhwng pobl o wahanol gred grefyddol, barn wleidyddol, grŵp hil, oedran, statws priodasol neu gyfeiriadedd rhywiol; rhwng dynion a merched yn gyffredinol; rhwng pobl ag anabledd a phobl heb anabledd; a rhwng pobl â dibynyddion a phobl heb ddibynyddion. Mae adran 75(2) hefyd yn mynnu bod Ofcom yn rhoi sylw i ba mor ddymunol yw hybu cysylltiadau da rhwng pobl o wahanol gred crefyddol, barn wleidyddol neu grŵp hil.

A4.18 Mewn perthynas â chydraddoldeb (yng Ngogledd Iwerddon neu yng ngweddill y DU), mae Ofcom yn credu ar y cyfan y byddai'r diwygiadau arfaethedig i Reol 5.3 y Cod a'r Canllawiau cysylltiedig yn debygol o effeithio ar ddinasyddion a defnyddwyr mewn ffordd debyg i'r hyn mae Rheol 5.3 a'r Canllawiau presennol yn ei wneud. Nid ydym yn credu y byddai'r diwygiadau arfaethedig i Reol 5.3 a'r Canllawiau cysylltiedig yn cael effaith benodol ar bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig.

A4.19 Mewn perthynas â'n dyletswyddau cydraddoldeb yng Ngogledd Iwerddon, yn benodol y gofyniad i ystyried pa mor ddymunol yw hyrwyddo cysylltiadau da rhwng pobl o wahanol gredoau crefyddol, barn wleidyddol neu grŵp hil, mae Ofcom o'r farn bod ein cynnig yn cyd-fynd â'r dyletswyddau hyn ac nad yw'n gwarantu asesiad manylach o'r effaith ar gydraddoldeb.

# A5. Ymateb i'r ymgynghoriad hwn

## Sut mae ymateb

A5.1 Byddai Ofcom yn hoffi i chi gyflwyno eich safbwyntiau a'ch sylwadau ynghylch y materion sydd yn y ddogfen hon erbyn 5pm ar 23 Mehefin 2025.

A5.2 Gallwch lawrlwytho ffurflen ymateb yn yma. Cewch ddychwelyd y ffurflen dros e-bost neu drwy'r post i'r cyfeiriad sydd ar y ffurflen ymateb.

A5.3 Os bydd eich ymateb ar ffurf ffeil fawr, neu os bydd yn cynnwys siartiau, tablau neu fathau eraill o ddata ategol, gofynnwn i chi ei anfon drwy e-bost i Rule5.3consultation@ofcom.org.uk, fel atodiad mewn fformat Microsoft Word, ynghyd â'r ddalen gyflwyno. At ddibenion yr ymgynghoriad hwn yn unig y mae'r cyfeiriad e-bost hwn, ac ni fydd yn ddilys ar ôl 23 Mehefin 2025.

A5.4 Fel arall, gellir postio ymatebion i'r cyfeiriad isod, gan nodi teitl yr ymgynghoriad arnynt:

Adolygiad o ymgynghoriad Rheol 5.3: Gwleidyddion yn cyflwyno newyddion
Tîm Safonau – Y Grŵp Darlledu a'r Cyfryngau
Ofcom
Riverside House
2A Southwark Bridge Road
London SE1 9HA

A5.5 Mae croeso i chi gyflwyno ymatebion mewn fformatau eraill heblaw mewn print, er enghraifft recordiad sain neu fideo mewn Iaith Arwyddion Prydain. I ymateb drwy ddefnyddio Iaith Arwyddion Prydain:

- anfonwch recordiad ohonoch chi'n defnyddio'r iaith arwyddion i gyfleu eich ymateb. Ni ddylai'r recordiad bara mwy na 5 munud. Dyma'r fformatau ffeil addas: ffeiliau DVD, wmv neu QuickTime; neu
- gwnewch fideo ohonoch chi'n defnyddio'r iaith arwyddion i gyfleu eich ymateb, a'i lwytho yn syth ar YouTube (neu wefan lletya arall), ac anfon y ddolen atom ni.

A5.6 Byddwn yn cyhoeddi trawsgrifiad o unrhyw ymatebion sain neu fideo a gawn ni (oni bai fod eich ymateb yn gyfrinachol)

A5.7 Nid oes angen i ni gael copi papur o'ch ymateb yn ogystal â fersiwn electronig. Byddwn yn cydnabod ein bod wedi derbyn ymateb a gyflwynir i ni dros e-bost.

A5.8 Nid oes rhaid i chi ateb pob cwestiwn yn yr ymgynghoriad os nad oes gennych chi safbwynt; mae ymateb byr ar ddim ond un pwynt yn iawn. Rydym hefyd yn croesawu ymatebion ar y cyd.

A5.9 Byddai'n ddefnyddiol pe gallai eich ymateb gynnwys atebion uniongyrchol i'r cwestiynau sy'n cael eu gofyn yn y ddogfen ymgynghori. Mae'r cwestiynau'n cael eu rhestru yn Atodiad A8. Byddai'n ddefnyddiol hefyd pe bai modd i chi esbonio pam rydych chi'n arddel eich safbwyntiau, a beth fyddai effaith cynigion Ofcom yn eich barn chi.

A5.10 Os hoffech chi drafod y materion a'r cwestiynau sydd wedi cael eu codi yn yr ymgynghoriad hwn, anfonwch e-bost i Rule5.3consultation@ofcom.org.uk.

## Cyfrinachedd

A5.11 Mae ymgyngoriadau'n fwy effeithiol os ydym yn cyhoeddi'r ymatebion cyn i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben. Gall hyn helpu pobl a sefydliadau sy'n brin eu hadnoddau neu sydd ddim yn gyfarwydd iawn â'r materion dan sylw i ymateb yn fwy gwybodus. Felly, er mwyn bod yn dryloyw a sicrhau ymarfer rheoleiddio da, ac oherwydd ein bod ni'n credu ei bod yn bwysig bod pawb sydd â diddordeb mewn mater yn gallu gweld safbwyntiau ymatebwyr eraill, fel rheol byddwn yn cyhoeddi ymatebion ar wefan Ofcom yn rheolaidd yn ystod y cyfnod ymgynghori ac ar ôl iddo ddod i ben.

A5.12 Os ydych chi'n meddwl y dylid cadw eich ymateb yn gyfrinachol, a fyddech chi cystal â nodi i ba ran(nau) mae hyn yn berthnasol, ac egluro pam. Anfonwch unrhyw adrannau cyfrinachol fel atodiad ar wahân. Os ydych chi am i'ch enw, eich cyfeiriad, manylion cyswllt eraill, neu deitl eich swydd aros yn gyfrinachol, rhowch y manylion hynny ar y ddalen gyflwyno'n unig, fel na fydd rhaid i ni olygu eich ymateb.

A5.13 Os bydd rhywun yn gofyn i ni gadw ymateb cyfan neu ran ohono yn gyfrinachol, byddwn yn trin y cais hwn o ddifri ac yn ceisio ei barchu, naill ai drwy beidio â chyhoeddi'r ymateb o gwbl, neu drwy gyhoeddi'r darnau nad ydynt yn gyfrinachol yn unig. Weithiau, efallai y byddwn yn credu ei bod yn bwysig datgelu rhannau o ymateb sydd wedi'i farcio'n gyfrinachol, a hynny am resymau tryloywder, ond byddwn yn ymgynghori â chi cyn gwneud hynny. O bryd i'w gilydd efallai y bydd rhwymedigaeth gyfreithiol arnom i gyhoeddi gwybodaeth neu ei datgelu yn y llys, ond unwaith eto, cyn belled ag y bo modd, byddwn yn rhoi gwybod i chi.

A5.14 Er mwyn cyflawni ein dyletswydd cyn datgelu, gallwn rannu copi o'ch ymateb nad yw'n gyfrinachol ag adran berthnasol y llywodraeth cyn i ni ei gyhoeddi ar ein gwefan.

A5.15 Sylwch hefyd y cymerir bod yr hawlfraint a phob eiddo deallusol arall sydd mewn ymatebion wedi'u rhoi o dan drwydded i Ofcom eu defnyddio. Mae hawliau eiddo deallusol Ofcom yn cael eu hegluro ymhellach yn ein Telerau Defnyddio.

## Y camau nesaf

A5.16 Ar ôl y cyfnod ymgynghori hwn, mae Ofcom yn bwriadu cyhoeddi datganiad ym mis Medi 2025.

A5.17 Gallwch gofrestru i gael diweddariadau drwy'r post yn rhoi gwybod i chi am gyhoeddiadau newydd Ofcom os ydych yn dymuno hynny.

## Prosesau ymgynghori Ofcom

A5.18 Mae Ofcom yn ceisio sicrhau ei bod mor hawdd â phosibl ymateb i ymgynghoriad. I gael rhagor o wybodaeth, edrychwch ar ein hegwyddorion ymgynghori yn Atodiad A6.

A5.19 Os oes gennych chi unrhyw sylwadau neu awgrymiadau am y ffordd rydym yn rheoli ein hymgyngoriadau, anfonwch neges e-bost atom yn consult@ofcom.org.uk. Rydym yn arbennig o awyddus i glywed syniadau ynghylch sut gallai Ofcom ofyn yn fwy effeithiol am farn grwpiau neu unigolion, fel busnesau bach a defnyddwyr preswyl, sy'n llai tebygol o roi eu barn drwy ymgynghoriad ffurfiol.

A5.20 Os hoffech drafod y materion hyn, neu brosesau ymgynghori Ofcom yn fwy cyffredinol, cysylltwch ag ysgrifennydd y gorfforaeth:

Ysgrifennydd y Gorfforaeth
Ofcom
Riverside House
2a Southwark Bridge Road
London SE1 9HA
E-bost: corporationsecretary@ofcom.org.uk

# A6. Egwyddorion ymgynghori Ofcom

Mae Ofcom yn dilyn saith egwyddor ar gyfer pob ymgynghoriad ysgrifenedig cyhoeddus:

## Cyn yr ymgynghoriad

1. Os oes modd, byddwn yn cynnal sgyrsiau anffurfiol gyda phobl a sefydliadau cyn cyhoeddi ymgynghoriad mawr i gael gwybod a ydym ar y trywydd iawn. Os nad oes gennym ddigon o amser i wneud hyn, byddwn yn cynnal cyfarfod agored i egluro ein cynigion yn fuan ar ôl cyhoeddi'r ymgynghoriad.

## Yn ystod yr ymgynghoriad

2. Byddwn yn glir ynghylch pwy rydym yn ymgynghori â nhw, pam, ar ba gwestiynau ac am ba hyd.
3. Byddwn yn gwneud y ddogfen ymgynghori'n un mor fyr ac mor syml ag y bo modd, gyda throsolwg o ddim mwy na dwy dudalen. Byddwn yn ceisio ei gwneud mor hawdd â phosibl i bobl roi ymateb ysgrifenedig i ni.
4. Wrth bennu hyd y cyfnod ymgynghori, byddwn yn ystyried natur ein cynigion a'u heffaith bosib. Byddwn bob amser yn nodi'n glir y dyddiad cau ar gyfer derbyn ymatebion.
5. Bydd rhywun yn Ofcom yn gyfrifol am sicrhau ein bod yn dilyn ein canllawiau ein hunain ac yn ceisio cyrraedd y nifer fwyaf o bobl a sefydliadau sydd â diddordeb o bosibl yng nghanlyniad ein penderfyniadau. Hyrwyddwr Ymgynghori Ofcom fydd y prif bwynt cyswllt os oes gennych chi farn am y ffordd rydym yn cynnal ein hymgyngoriadau.
6. Os na fyddwn yn gallu dilyn unrhyw un o'r egwyddorion hyn, byddwn yn egluro pam.

## Ar ôl yr ymgynghoriad

7. Credwn ei bod yn bwysig bod pawb sydd â diddordeb mewn mater yn gallu gweld safbwyntiau pobl eraill. Felly, fel rheol, byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion ar ein gwefan yn rheolaidd yn ystod y cyfnod ymgynghori ac ar ôl iddo ddod i ben. Ar ôl yr ymgynghoriad, byddwn yn gwneud ein penderfyniadau ac yn cyhoeddi datganiad sy'n egluro beth fyddwn ni'n ei wneud, a pham, gan ddangos sut mae safbwyntiau ymatebwyr wedi helpu i lywio'r penderfyniadau hyn.

# A7. Dalen gyflwyno'r ymgynghoriad

## Manylion sylfaenol

Teitl yr ymgynghoriad:

At (swyddog cyswllt yn Ofcom):

Enw'r ymatebydd:

Yn cynrychioli (eich hun neu sefydliad/au):

Cyfeiriad (os na ddaeth i law drwy e-bost):

## Cyfrinachedd

Ticiwch isod i ddangos pa ran o'ch ymateb rydych chi'n ei hystyried yn gyfrinachol, a rhowch eich rhesymau dros hynny

- Dim ☐
- Enw/manylion cyswllt/teitl swydd ☐
- Ymateb cyfan ☐
- Sefydliad ☐
- Rhan o'r ymateb ☐

Os ydych chi wedi dewis 'Rhan o'r ymateb', nodwch pa rannau:

-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

---------------------------------------------------------------------------------------------------------

Os ydych chi am i ran o'ch ymateb, eich enw neu eich sefydliad beidio â chael eu cyhoeddi, ydych chi'n fodlon i Ofcom gyhoeddi cyfeiriad at gynnwys eich ymateb (gan gynnwys, yn achos unrhyw rannau cyfrinachol, grynodeb cyffredinol na fydd yn datgelu'r wybodaeth benodol nac yn datgelu pwy ydych chi)?

Ydw ☐ Nac ydw ☐

## Datganiad

Rwy'n cadarnhau bod yr ohebiaeth sydd wedi'i rhoi gyda'r ddalen gyflwyno hon yn ymateb ffurfiol i'r ymgynghoriad y gall Ofcom ei gyhoeddi. Fodd bynnag, wrth ddarparu'r ymateb hwn, rwy'n deall ei bod yn bosibl y bydd angen i Ofcom gyhoeddi'r holl ymatebion, gan gynnwys y rhai sydd wedi'u nodi'n gyfrinachol, er mwyn cyflawni rhwymedigaethau cyfreithiol. Os ydw i wedi anfon fy ymateb drwy e-bost, gall Ofcom ddiystyru unrhyw destun e-bost safonol ynglŷn â pheidio â datgelu cynnwys ac atodiadau'r neges e-bost.

Mae Ofcom yn bwriadu cyhoeddi ymatebion yn rheolaidd yn ystod y cyfnod ymgynghori ac ar ôl iddo ddod i ben. Os yw eich ymateb yn un nad yw'n gyfrinachol (yn gyfan gwbl neu'n rhannol), ac y byddai'n well gennych i ni beidio â chyhoeddi eich ymateb nes bydd yr ymgynghoriad wedi dod i ben, ticiwch yma.

Enw Llofnod (os darperir copi caled)

# A8. Cwestiynau'r ymgynghoriad

**Dywedwch wrthym sut y daethoch ar draws yr ymgynghoriad hwn.**

- ☐ E-bost gan Ofcom
- ☐ Wedi'i weld ar y cyfryngau cymdeithasol
- ☐ Wedi dod o hyd iddo ar wefan Ofcom
- ☐ Wedi dod o hyd iddo ar wefan arall
- ☐ Wedi clywed amdano ar y teledu neu'r radio
- ☐ Wedi darllen amdano mewn papur newydd neu gylchgrawn
- ☐ Wedi clywed amdano mewn digwyddiad
- ☐ Rhywun wedi dweud wrthyf amdano neu wedi'i rannu â mi
- ☐ Arall (rhowch fanylion)

**Cwestiwn 1 yr Ymgynghoriad:**

Ydych chi'n cytuno â'r diwygiadau arfaethedig i Reol 5.3 o God Darlledu Ofcom? Rhowch resymau dros eich ateb.

**Cwestiwn 2 yr Ymgynghoriad:**

Ydych chi'n credu y bydd Rheol 5.3 o God Darlledu Ofcom, os caiff ei ddiwygio'n unol â'r cynnig, yn rhoi digon o amddiffyniad i gynulleidfaoedd? Rhowch resymau dros eich ateb.

**Cwestiwn 3 yr Ymgynghoriad:**

Ydych chi'n cytuno â'r asesiad o effeithiau posibl y diwygiadau arfaethedig i Reol 5.3 o God Darlledu Ofcom (fel y nodir yn Atodiad 2)? Rhowch resymau dros eich ateb.

**Cwestiwn 4 yr Ymgynghoriad:**

Ydych chi'n cytuno â'r diwygiadau arfaethedig i'r Canllawiau ar Reol 5.3?

**Cwestiwn 5 yr Ymgynghoriad:**

Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill i'w gwneud am y cynigion, gan gynnwys yng nghyswllt cwmpas y newidiadau arfaethedig?